**Llywodraeth Cymru**

# Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion i'r canllawiau ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith

## Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad ar ganllawiau ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Dadansoddiad o Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Ganllawiau Ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith

Nick Miller, Kerry KilBride, Dr Nick Morgan, Jessica Mann, Sophie Wheeler / Miller Research (UK) Ltd.
Heledd Bebb / Old Bell 3

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Nick Miller

nick@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK
www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

## Tabl cynnwys


Tabl cynnwys .......... i

2. Trosolwg o'r Ymatebion .......... 5

3. Canllawiau Ychwanegol i'r Cwricwlwm ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith: Cwestiynau 1-12 yr Ymgynghoriad .......... 7

Cwestiwn 1: *A oes perthynas glir rhwng y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer* gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith *sy'n gysylltiedig â Byd Gwaith a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru?* .......... 7

Cwestiwn 2: *A yw'r canllawiau drafft hyn ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion pob dysgwr o 3 i 16 oed, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu mewn ysgolion a lleoliadau eraill?* .......... 8

Cwestiwn 3: *A yw'r canllawiau drafft hyn yn gosod cyd-destun ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith i helpu ysgolion a lleoliadau eraill wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu i ddysgwyr?* .......... 10

Cwestiwn 4: *A yw'r canllawiau drafft hyn yn rhoi gwybodaeth glir yn amlinellu pwy ddylai fod yn gyfrifol am wahanol agweddau o gynllunio a gweithredu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn y cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau eraill?* .......... 11

Cwestiwn 6: *Pa agweddau (os oes rhai o gwbl) o'r canllawiau hyn sydd fwyaf defnyddiol yn eich barn chi?* .......... 14

Cwestiwn 7: *A oes unrhyw agweddau o'r canllawiau hyn sy'n rhy benodol ac anhyblyg yn eich barn chi?* .......... 15

Cwestiwn 8: *A oes unrhyw agweddau o'r canllawiau hyn nad ydynt yn ddigon manwl yn eich barn chi?* .......... 17

Cwestiwn 9: *A oes gennych unrhyw bwyntiau pellach i'w gwneud yn benodol am y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith neu a oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys yn eich barn chi?* .................................................21
Cwestiwn 10: *Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar: gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg - peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.* .......................................................................23
Cwestiwn 11: *Eglurwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid ffurfio neu newid y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith: - fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg - fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg* ......................26
Sylwadau ychwanegol.......................................................................27
4. Ymatebion Ychwanegol...................................................................32
5. Gweithdai Ymgynghori ....................................................................43
Cwestiwn 1 .......................................................................................43
A oes perthynas glir rhwng y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sy'n gysylltiedig â Byd Gwaith a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru? ..........................................................44
Cwestiwn 2 .......................................................................................44
A yw'r canllawiau drafft hyn ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion pob dysgwr o 3 i 16 oed, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu mewn ysgolion a lleoliadau eraill? ..........................................................................44

**Cyflwyniad**

1.1 Cyhoeddwyd Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020, a oedd yn cynnwys canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion, lleoliadau, ac ymarferwyr eraill a oedd yn ymwneud â chynllunio cwricwlwm. Cafodd Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith ('gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith') eu cynnwys fel un o elfennau trawsbynciol y Cwricwlwm i Gymru, sy'n berthnasol i ddysgwyr o 3 i 16 oed. Cyn ei gyhoeddi, bu'r fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd adborth hwn yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol, y byddai ar ysgolion a sefydliadau addysgol eraill eu hangen er mwyn cynllunio eu cwricwlwm yn llwyddiannus. Roedd canllawiau ychwanegol o'r fath yn ofynnol ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

1.2 Yn unol â'r egwyddor sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru, mae dogfennau canllawiau yn mynd ati'n fwriadol i osgoi pennu sut y caiff y cwricwlwm ei gyflwyno, gan roi rhyddid i ysgolion a lleoliadau wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

1.3 Nod y canllawiau ychwanegol ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yw ysbrydoli dysgwyr o'r oedrannau cynharaf i ddatblygu dealltwriaeth o ddiben gwaith mewn bywyd iddynt hwy eu hunain ac i gymdeithas fel cyfanrwydd, gan eu harwain a'u cefnogi drwy'r broses o sicrhau profiad gwaith ymarferol tuag at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd.

1.4 Cychwynnodd yr ymgynghoriad wyth-wythnos ar ganllawiau ychwanegol drafft ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ym mis Mai 2021 i geisio barn gan ysgolion a chaeodd ar 16 Gorffennaf. Mae'r cyfnod ymgynghori yn ffurfio rhan o'r broses gyd-awduro ac mae'n cynnig cyfle hanfodol i bob ymarferwr a rhanddeiliad arall i gyfrannu at ddatblygu'r canllawiau.

1.5 Comisiynwyd Miller Research, ar y cyd ag Old Bell 3, i gyflawni dadansoddiad annibynnol o'r ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys

ymgyngoriadau gweithdy gyda rhanddeiliaid, a lledaenu'r ymatebion ysgrifenedig i'r canllawiau ychwanegol.

1.6 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd cyfres o chwe gweithdy, a oedd yn agored i ystod eang o ymarferwyr a rhanddeiliaid. Digwyddodd y rhain rhwng 16 Mehefin ac 8 Gorffennaf. Roedd themâu i'r gweithdai, gyda gweithdai penodol yn cael eu cynnig i wahanol grwpiau o randdeiliaid, megis cyflogwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid ysgolion uwchradd, ymarferwyr a rhanddeiliaid ysgolion cynradd. Cynhaliwyd gweithdai penodol yn ogystal ar gyfer Gyrfa Cymru, ymarferwyr arbenigol gyrfaoedd, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Cynaliwyd sesiwn gyffredinol hefyd, yn agored i bawb fynd iddi.

1.7 Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r mewnbwn i'r gweithdai hyn eu dadansoddi'n annibynnol a'u crynhoi i ffurfio sail yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn wedi ei rannu'n ddwy adran. Mae'r gyntaf yn rhoi dadanoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Mae'r ail yn rhoi dadansoddiad o weithdai'r ymgynghoriad.

1.8 Bydd y canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn cael eu hymgorffori i ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru. Dylai cyfeiriadau at ganllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ddarllen fel cyfeiriadau at yr adrannau o'r Cwricwlwm i Gymru sy'n cyfeirio at gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Bydd cyfeiriadau at gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn ymddangos mewn adrannau o'r canllawiau sy'n ymwneud â 'Cynllunio eich cwricwlwm', pob un o'r 'Meysydd Dysgu a Phrofiad' (o dan y themâu trawsgwricwlar ar gyfer y Maes hwnnw) a'r 'Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig'.

## 2. Trosolwg o'r Ymatebion

2.1 Derbyniodd yr ymgynghoriad ar y canllawiau ychwanegol ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru gyfanswm o 48 o ymatebion o sylwedd.

2.2 Roedd cynllun yr holiadur yn defnyddio cyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig, gan ganiatáu lle i ymatebwyr roi adborth manwl, a chodi unrhyw gwestiynau neu bryderon perthnasol.

2.3 O'r cyfanswm o 48 o ymatebion, cyflwynwyd 44 o'r ymatebion yn Saesneg a chyflwynwyd 4 ymateb yn y Gymraeg. Yn ogystal â'r arolwg, cyflwynwyd ymatebion ysgrifenedig pellach ar ran y rhanddeiliaid allweddol canlynol: Gyrfa Cymru, NASUWT Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru, UNISON Cymru, a'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru.

2.4 Roedd gan fwyafrif ymatebwyr yr arolwg rôl alwedigaethol naill ai o fewn y sector addysg, neu'n ymwneud â'r sector addysg, gyda 35 yn ymateb ar ran ysgolion/lleoliadau/sefydliadau, a 9 yn ymateb fel unigolion. Roedd ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau gan gynnwys cyrff sector cyhoeddus, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, consortia rhanbarthol, a chyflogwyr. O'r ymatebion, oredd cyfran cymharol fach gan ymarferwyr addysg, a 9 gan ymarferwyr ysgolion prif ffrwd, ac 1 gan ymarferydd mewn ysgol arbennig. Roedd 7 o ymatebion gan gyrff proffesiynol neu grwpiau buddiannau.

2.5 Roedd y thema gyffredin o fewn yr ymatebion yn adlewyrchu consensws ynghylch pwysigrwydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith wrth ddatblygu dysgwyr cytbwys a chyflawn, wedi eu harfogi ar gyfer byd gwaith. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad a chan gyfranogwyr gweithdai ynghylch y pwysigrwydd mae'r cwricwlwm newydd yn ei roi i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith trwy'r canllawiau ychwanegol hyn. Roedd nifer o ymatebwyr a chyfranogwyr gweithdai yn nodi'n benodol arwyddocâd

y canllawiau o safbwynt gwella symudedd cymdeithasol, rhoi ystyriaeth i sgiliau fel entrepreneuriaeth, a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r farchnad lafur. Roedd y prif bryderon a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad a chyfranogwyr y gweithdai yn ymwneud ag ymarferoldeb gweithredu'r canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fewn y Cwricwlwm i Gymru wrth ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i leoliadau addysg ar hyn o bryd.

## 3. Canllawiau Ychwanegol i'r Cwricwlwm ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith: Cwestiynau 1-12 yr Ymgynghoriad

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad cronolegol o ymatebion i bob cwestiwn o'r arolwg. Mae'r ymatebion wedi cael eu dadansoddi i ganfod synnwyr o teimlad cyffredinol, themâu allweddol, a meysydd o bryder ac amheuon.

**Cwestiwn 1:** ***A oes perthynas glir rhwng y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer*** **gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith** ***sy'n gysylltiedig â Byd Gwaith a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru?***

3.2 Roedd cyfanswm o 38 o ymatebwyr yn cytuno bod perthynas glir rhwng y dogfennau, gyda 6 o ymatebwyr yn crybwyll ffactorau fel pwyslais ar 'berthynas glir' â'r Cwricwlwm i Gymru a'r pedwar diben fel prawf o gysondeb. Ar y llaw arall, roedd 8 o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno, ac roedd 2 na wnaeth ateb. Mae'r ymatebion yn adlewyrchu cytundeb cryf fod perthynas glir rhwng y ddwy ddogfen a'u bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gyson i raddau helaeth â'r adborth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai ymgynghori ar gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, ac oedd hefyd yn cadarnhau'r berthynas glir rhwng y ddwy ddogfen.

*3.3* Roedd ymatebwyr eraill yn tynnu sylw at y modd y mae'r canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn cydweddu ag ethos canllawiau ehangach y Cwricwlwm i Gymru, wrth ganiatáu i leoliadau addysgu chwarae rhan uniongyrchol yn y gwaith o reoli a chreu eu cwricwlwm eu hunain. Roedd yr adborth cadarnhaol ynghylch y pwynt hwn yn cynnwys: '*Mae'r canllawiau drafft yn atgyfnerthu'r Cwricwlwm i Gymru, wrth bwysleisio cyfrifoldeb pob ysgol a lleoliad i gynllunio eu cwricwlwm gyda phrofiadau gyrfaoedd a gwaith fel thema drawsbynciol,'* a '*Mae'r canllawiau hyn yn rhoi digon o ymreolaeth i ysgolion a lleoliadau gynllunio eu cwricwlwm eu hunain.'*

3.4 O’r ymatebwyr a atebodd ‘na’, roedd un pryder allweddol yn ymwneud â diffyg gwybodaeth ddigonol ar sut y gall lleoliad nas cynhelir roi’r canllawiau ar waith. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys diffyg ystyriaeth o gysondeb a chydlyniaeth rhwng y canllawiau a’r system addysg fel cyfanrwydd.

3.5 Teimlai un ymatebydd hefyd nad oedd y canllawiau’n rhoi digon o sylw i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, yn enwedig o gofio mai’r argyfwng hinsawdd yw’r her fwyaf sy’n wynebu cymdeithas. Fe wnaeth ymatebydd arall y sylw fod ystyriaeth ehangach i helpu datblygu ‘dinasyddion egwyddorol, gwybodus’ yn rhywbeth a oedd ‘ar goll’. Teimlai’r cyfranogwr fod fframio’r canllawiau yn y fath fodd sy’n cydnabod pa mor wahanol fydd y byd i bobl ifanc yn y dyfodol yn bwysig o safbwynt cyd-destun.

3.6 Yn olaf, fe wnaeth 3 o ymatebwyr sylwadau ynghylch diffyg eglurder a phenodolrwydd o fewn y canllawiau. Roedd disgrifiadau’n cynnwys cysylltiadau ‘amwys’ a ‘chyffredinol’ â’r Pedwar Diben a’r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae’r rhain yn cyflwyno barn wahanol i’r ymatebion a oedd yn teimlo bod y canllawiau yn ddigon penagored, sy’n amlygu’r gwahaniaethau yn y modd y caiff y canllawiau a’u manylion eu dehongli.

**Cwestiwn 2:** ***A yw’r canllawiau drafft hyn ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn darparu’n ddigonol ar gyfer anghenion pob dysgwr o 3 i 16 oed, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wrth gynllunio a gweithredu’r cwricwlwm ac asesu mewn ysgolion a lleoliadau eraill?***

3.7 Derbyniodd y cwestiwn hyn ymatebion cymysg, gyda chyfanswm o 29 o ymatebion ‘ydynt’. Rhwng pawb, dywedodd 17 ‘na’, nad yw’n darparu ar gyfer pob dysgwr.

3.8 O’r ymatebion ‘ydynt’, roedd 4 o ymatebwyr yn nodi bod y canllawiau yn gychwyn cadarnhaol gan eu bod yn cynnwys pob dysgwr, ond yn pwysleisio bod gwaith sy’n dal angen ei wneud.

3.9 Roedd rhai ymatebwyr a ddywedodd fod y canllawiau’n cael eu disgrifio fel rhai ‘lefel uchel’ ac felly heb fod yn ddigon mawl pan ddaw at ddysgwyr penodol sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fe wnaeth 12 o ymatebwyr sylwadau yn nodi eu pryder nad yw’r canllawiau’n berthnasol i *bob* dysgwr.

3.10 Thema gyffredin arall yn yr ymatebion oedd yr angen am fwy o adnoddau wedi eu teilwra’n benodol ar gyfer lleoliadau cynradd a chyn-ysgol, gan na fydd y lleoliadau hyn wedi cyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fel rhan o’r cwricwlwm. Roedd ymatebion yn awgrymu hefyd fod gan rai agweddau o’r iaith o fewn y canllawiau y potensial o ‘gyfyngu’, er enghraifft, y cyfeiriad at feithrin ‘gwireddu posibiliadau’r dyfodol’, a oedd yn cael ei weld fel rhywbeth caeth ei naws.

3.11 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw hefyd at gyfle i gefnogi dwyieithrwydd mewn lleoliadau cyfrwng-Saesneg trwy ddarparu adnoddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y ddwy iaith. Roedd un ymatebydd yn gweld hyn fel rhywbeth cefnogol i nodau ehangach gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith wrth gryfhau mynediad pobl ifanc at waith a chyflogadwyedd yng Nghymru.

3.12 Yn olaf, roedd ymatebwyr yn awgrymu hefyd fod angen i’r canllawiau wneud mwy i ddysgwyr nad yw’r cwricwlwm traddodiadol yn addas ar eu cyfer. Er mwyn darparu o ddifrif ar gyfer pob dysgwr, mae hyn yn gofyn hefyd am drefnu manwl ar gyfer y rheini nad ydynt yn dilyn y llwybr academaidd prif ffrwd. Er mwyn mynd i’r afael â’r mater hwn, roedd ymatebydd arall yn argymell y dylai fod mwy o sylw a gwybodaeth ar lwybrau galwedigaethol o fewn y canllawiau.

3.13 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion ysgrifenedig i’r ymgynghoriad yn cyfateb i raddau helaeth â’r teimlad cadarnhaol a fynegwyd yn y gweithdai ymgynghori o safbwynt y cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 3:** ***A yw'r canllawiau drafft hyn yn gosod cyd-destun ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith i helpu ysgolion a lleoliadau eraill wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu i ddysgwyr?***

3.14 O gyfanswm yr ymatebion, atebodd 31 o ymatebwyr 'ydynt' ac atebodd 17 'na'.

3.15 Ymysg y rheini a oedd yn cytuno, cyflwynwyd nifer o sylwadau cadarnhaol, gydag un ymatebydd yn falch o weld geirfa'n cael ei chynnwys. Roedd ymatebwyr eraill yn falch gyda strwythur y ddogfen a'r wybodaeth o ran pwy ddylai fod yn cefnogi ei datblygiad.

3.16 Roedd ymatebydd arall yn cytuno bod y canllawiau'n gosod cyd-destun ac yn galluogi ysgolion i gychwyn cynllunio eu cwricwlwm. Fodd bynnag, eu teimlad oedd fod y canllawiau'n 'wanach' wrth ddarparu gwybodaeth ar *sut* y gall ymarferwyr weithredu eu cwricwlwm ac arferion asesu. Mae'r pwynt hwn yn thema gyffredin drwy gwestiynau'r ymgynghoriad sy'n canolbwyntio ar 'sut' ac ar y camau ymarferol o gyflawni darpariaeth lwyddiannus o gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sy'n unol â'r holl nodau a amlinellir yn y canllawiau.

3.17 Roedd un pryder penodol a fynegwyd gan nifer bach o ymatebwyr ynghylch gosod cyd-destun yn ymwneud â dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Roedd un cyfranogwr yn esbonio y gall cyd-destun fod yn hanfodol i ddysgwyr y tu allan i leoliadau prif ffrwdd neu rai ag anghenion cymhleth. Yn yr achosion hyn, gall trefnu a hwyluso profiadau sy'n ymwneud â gwaith olygu cryn dipyn o heriau ychwanegol i bawb sydd ynghlwm. Byddai mwy o ystyriaeth o'r amrywiaeth o sefyllfaoedd a all godi, a sut i oresgyn y rhwystrau hyn, yn cael ei groesawu gan ymarferwyr.

3.18 Roedd un ymatebydd a atebodd 'na' yn pwysleisio y byddai ar faes penodol, sef deall 'gwybodaeth am y farchnad lafur', yn gofyn am ddysgu a hyfforddiant proffesiynol i athrawon. Roedd angen mwy o

gyd-destun hefyd o safbwynt dangos sut y gellir datblygu sgiliau a gwybodaeth trwy fyd gwaith, a sut y gall gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn llwyddiannus gyflawni hyn.

3.19 Fel gyda'r gweithdai ymgynghori, ymatebodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn, fodd bynnag, ychydig o'r ymatebwyr a atebodd 'ydynt' a adawodd sylwadau i ymhelaethu. O ganlyniad, casglwyd mwy o sylwadau cadarnhaol ar y cwestiwn hwn o'r gweithdai. Derbyniwyd sylwadau mwy beirniadol o ymatebion ysgrifenedig na chan gyfranogwyr gweithdai, sy'n adlewyrchu gwahanol natur y ddau fodd o gasglu adborth, gyda'r ymatebion ysgrifenedig yn caniatáu mwy o gyfle am fyfyrio a beirniadu ystyriol.

**Cwestiwn 4:** ***A yw'r canllawiau drafft hyn yn rhoi gwybodaeth glir yn amlinellu pwy ddylai fod yn gyfrifol am wahanol agweddau o gynllunio a gweithredu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn y cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau eraill?***

3.20 Mae'r cwestiwn hwn yn ennyn cytundeb llawer cryfach ymhlith yr ymatebion, gyda 33 o ymatebwyr yn ateb 'ydynt'. O'r gweddill o ymatebwyr, roedd 12 wedi ateb 'na', tra gwrthododd 3 o ymatebwyr â rhoi ateb 'ydynt' na 'na'.

3.21 Roedd y rheini a gytunai fod yr wybodaeth yn glir, yn ymhelaethu ymhellach ar eu hatebion fel: *'Mae'r ddogfen yn rhoi arwyddion clir o ran pwy sy'n gyfrifol mewn gwahanol gyd-destunau, rydym yn croesawu ei bod yn nodi'r rheini sydd â chyfrifoldeb cyffredinol ac unigol dros lwyddiant'.*

3.22 O ran rhoi cyfeiriad ynghylch *pwy* sy'n gyfrifol am y gwahanol agweddau o weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, mae'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys diffyg eglurder mewn manylu rolau partneriaid o fewn y broses. Roedd un cyfranogwr yn amlinellu amrywiaeth o bartneriaid y gellid rhoi mwy o ystyriaeth

iddynt yn y ddogfen, megis cyflogwyr o ‘ddiwydiannau angori’, yn ogystal â busnesau bach a chanolig a phartneriaethau dysgu/sgiliau rhanbarthol.

3.23 Crybwyllwyd hefyd y diffyg sylw i’r rôl y gallai sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach hefyd ei chwarae wrth helpu gweithredu a hwyluso’r canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, gyda’r ymatebydd yn teimlo bod y meysydd hyn wedi cael eu hesgeuluso i raddau helaeth gan y canllawiau drafft yn sgil y canolbwyntio ar ddysgwyr 3-16 oed.

3.24 Teimlad un ymatebydd oedd oherwyddd bod y canllawiau’n canolbwyntio, a hynny’n iawn, ar ddysgwyr 3-16 oed, bod angen mwy o sylw ar y rhannau y gall sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch eu chwarae wrth helpu gweithredu’r canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

*3.25* Yn gyffredinol, roedd ymatebion ysgrifenedig i’r ymgynghoriad a chyfranogwyr gweithdai yn ymateb yn gadarnhaol ar y cwestiwn hwn, gyda rhai awgrymiadau a mân feirniadaethau’n cael eu gwneud trwy’r ddau fformat.

**Cwestiwn 5:** ***A yw’r canllawiau drafft hyn yn cefnogi a helpu ysgolion a lleoliadau eraill i integreiddio Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â Byd Gwaith wrth gynllunio a gweithredu’r cwricwlwm ac asesu i ddysgwyr?***

3.26 Roedd ymatebion i’r cwestiwn hwn yn llawer mwy cymysg nag i’r cwestiynau blaenorol. Atebodd cyfanswm o 23 o ymatebwyr ‘ydynt’, gyda 22 o ymatebwyr yn ateb ‘na’. Roedd 3 o ymatebwyr a ddewisodd beidio â rhoi ymateb ‘ydynt’ na ‘nac ydynt’ clir.

3.27 Roedd yr ymateb cadarnhaol ar y canllawiau yn cynnwys y gydnabyddiaeth na ddylai gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fod yn rhan ‘annibynnol’ o gwricwlwm ysgol: *‘Mae’n nodi’n glir gyfrifoldeb pawb o’r staff i integreiddio profiadau gyrfaoedd a gwaith i’w cynllunio ac addysgu.’* Fodd bynnag, roedd yr ymatebydd yn pwysleisio

ymhellach bwysigrwydd fod gan ymarferwyr ddealltwriaeth ddigonol o anghenion a gofynion cyflogwyr yn y dyfodol, gan awgrymu y gallai gwybodaeth bellach ar hyn fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr.

3.28 Roedd sylwadau cadarnhaol eraill yn cynnwys: *'Mae adrannau sy'n edrych ar sgiliau, Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r gwahanol randdeiliaid sydd â rhan i'w chwarae wrth ddatblygu* gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. *Mae'r rhain i gyd yn helpu dangos i ysgolion sut y dylai'r cwricwlwm* gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith *a ddatblygir ar gyfer eu lleoliad gael ei integreiddio yn y cwricwlwm cyffredinol'.* Yn ogystal â'r sylwadau hyn, ymhelaethodd 3 arall o'r rhai a ymatebodd 'ydynt' fod y canllawiau'n cael eu gweld fel rhywbeth perthnasol a defnyddiol i leoliadau ysgolion uwchradd.

3.29 Mae'r prif bryderon yn ymwneud â'r canfyddiad fod lleoliadau cyn ysgolion uwchradd wedi cael eu hanwybyddu i raddau. O safbwynt ymarferoldeb ymarferwyr yn cyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y lleoliadau hyn, roedd un cyfranogwr yn mynegi'r teimlad ei fod *'yn ei chael yn anodd yn bersonol i weld cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu yn y maes hwn'.*

3.30 Mae cwestiynau'n parhau hefyd ynghylch 'sut' y gellir gweithredu'r canllawiau yn ymarferol. Roedd ymatebwyr yn disgrifio'r canllawiau fel trosolwg 'darlun mawr', gydag agweddau o'r gweithredu a'r asesu 'heb gael eu hystyried a'u trafod yn ddigonol'. O safbwynt gweithredu, awgrymwyd nad oedd rhwystrau posibl wedi cael eu hystyried yn llawn, megis problemau y gallai rhai lleoliadau eu hwynebu os ydynt wedi eu lleoli mewn ardal sy'n gyfyngedig o ran cyfleoedd i ymwneud ag asiantaethau a chyflogwyr.

3.31 Roedd ymatebwyr yn awgrymu nifer o elfennau pellach a fyddai'n cael eu croesawu er mwyn rhoi'r graddau o gymorth maent yn ei geisio. O ran yr awgrymiadau hyn, dylid nodi nad yw o fewn cylch gwaith y canllawiau i fynd i fanylder mawr ar, enghraifft, gynnydd disgyblion neu ddysgu proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fframwaith i helpu athrawon gynllunio cynnydd dysgwyr.

- Cyfeiriadau clir at lwybrau datblygu.
- Pwyslais ar set o safonau er mwyn sicrhau cae chwarae gwastad i bob dysgwr.
- Ystyried ysgolion o feintiau mwy ac amrywiol, ac felly heriau i'w goresgyn o safbwynt adnoddau a darpariaeth.
- Mwy o fanylder o safbwynt dysgu proffesiynol i gefnogi ysgolion.

3.32 Roedd tebygrwydd rhwng yr adborth a roddwyd gan ymatebwyr a chyfranogwyr gweithdai, gyda barnau cymysg yn cael eu mynegi ar y cwestiwn hwn. Roedd un thema gyffredinol o feirniadaeth a phryderon gan bob grŵp yn ymwneud â'r angen am fwy o fanylder ac eglurder ar amrywiaeth o feysydd.

**Cwestiwn 6: *Pa agweddau (os oes rhai o gwbl) o'r canllawiau hyn sydd fwyaf defnyddiol yn eich barn chi?***

3.33 Cwestiwn agored oedd Cwestiwn 6, a oedd yn gofyn i ymatebwyr fanylu ar unrhyw elfennau o'r canllawiau y gwnaethant eu canfod i fod yn ddefnyddiol. Rhoddwyd cyfanswm o 27 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dewisodd 11 o ymatebwyr adael y cwestiwn hwn yn wag.

3.34 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn rhannu teimlad cadarnhaol tuag at uchelgais y canllawiau a'u nodau allweddol. Roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffaith fod y rhain bellach yn ganllawiau statudol i holl oedrannau 3-16, gyda chydnabyddiaeth fod hyn *'yn dangos yn glir natur y newid a'r hyn yr anelir amdano'* yn y Cwricwlwm i Gymru.

3.35 Roedd adborth cadarnhaol hefyd ynghylch adrannau'r canllawiau ar ddysgu, cysoni'r cwricwlwm, a'r camau sy'n rhoi cyfeiriad ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm. Roedd un cyfranogwr yn cydnabod pwysigrwydd y ddogfen wrth gyfleu'r hyn a ddisgwylir y tu hwnt i gwmpas cymwysterau academaidd – gan nodi hyn fel agwedd hanfodol o ddilyniant i fyd gwaith ac at ennill sgiliau bywyd cyffredinol.

3.36 Roedd ymatebwyr eraill yn croesawu'r gydnabyddiaeth o'r amrywiaeth o wahanol sectorau y gallai pobl ifanc fod â'u bryd ar weithio ynddynt, neu ganfod cyfleoedd ynddynt, gan gynnwys sectorau sydd â phwyslais ar gynaliadwyedd. Roedd y meddwl blaengar am 'swyddi gwyrdd' fel maes o gyfleoedd sy'n tyfu yn cael ei ganmol yn benodol am ddangos ymwybyddiaeth o'r farchnad gyflogaeth sy'n cyflym newid.

**Cwestiwn 7:** ***A oes unrhyw agweddau o'r canllawiau hyn sy'n rhy benodol ac anhyblyg yn eich barn chi?***

3.37 Yn gyffredinol, canfyddiad mwyafrif yr ymatebwyr oedd nad oedd y canllawiau yn rhy benodol ac anhyblyg, gyda 38 o ymatebion yn dweud nad oeddent, a dim ond 6 o ymatebwyr yn dweud eu bod.

3.38 O'r rheini a deimlai fod y canllawiau wedi cael y cydbwysedd yn iawn, roedd ymatebion allweddol yn cynnwys:

- 'Tua bod yn iawn' i ysgolion uwchradd
- Nid yw 'hanfod' y ddogfen yn rhy benodol nac anhyblyg
- 'Mae'n cynnig hyblygrwydd digonol i ysgolion'
- 'Mae'n amlwg mai cyfrifoldeb yr ysgol o dan y cwricwlwm newydd, yw darparu cwricwlwm gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sy'n unswydd ar gyfer ei ddysgwyr.'

3.39 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr a gytunai nad oedd y canllawiau yn rhy benodol ac anhyblyg yn mynegi pryderon nad yw'r canllawiau yn ddigon manwl. Dylid nodi bod y ddogfen ganllawiau yn bwriadol osgoi pennu sut i gyflwyno'r cwricwlwm, a bod ymarferwyr addysg yn ffurfio cyfran gymharol fach o'r ymatebwyr (10 allan o 48). Roedd ymatebion a ganfu nad oedd y ddogfen ganllawiau yn ddigon manwl yn nodi'r canlynol:

- Mae'n "rhy eang, rhy gyffredinol, ac yn anelu at blant hŷn"
- Mae'n "rhy ysgafn" i leoliadau ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig

- "Byddai'n elwa o gael astudiaethau achos 'ysgolion go-iawn' ac enghreifftiau i'w chryfhau, heb ychwanegu manylder nad oes mo'i eisiau"
- Angen iddynt fod yn gliriach ar rôl asiantaethau allanol megis Gyrfa Cymru gan "eu bod yn rhoi'r cysylltiadau presennol â chyflogwyr ac arbenigedd ar feysydd fel canllawiau gyrfaoedd a phrofiad gwaith."

3.40 Roedd dau ymateb yn mynegi pryderon fod y canllawiau'n rhy benodol ac anhyblyg mewn rhai meysydd ac yn tynnu sylw at y goblygiadau negyddol posibl y gallai hyn ei gael ar lwyth gwaith athrawon, gallu ysgolion i ymateb yn hyblyg i'w hanghenion, a'r graddau y mae'r canllawiau yn lleihau gorfodaeth ac yn hyrwyddo hyblygrwydd. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnnwys y canlynol:

- Disgrifiadau'r Meysydd Dysgu a Phrofiad: "gellid eu lleihau a'u gwella i osgoi triniaeth arwynebol gan ysgolion a chyrraedd gofynion uwch y cwricwlwm. Dylent hefyd fod yn llai penodol o ran y sgiliau sydd eu hangen ac yn fwy penodol i alwedigaethau sydd angen y sgiliau hynny"
- "Dim digon o bwyslais ar ieithoedd tramor modern, dim ond pwysigrwydd cynyddol cyfathrebu yn y Gymraeg sy'n cael ei bwysleisio."

Roedd pryderon eraill a nodwyd mewn cyswllt â'r cwestiwn hwn fel a ganlyn:

- Angen mynd y tu hwnt i Gyrfa Cymru tuag at restr o "ddarparwyr cymeradwy" i roi mwy o hyblygrwydd i ysgolion a manteisio ar amrywiaeth o sefydliadau.
- "Mae nifer o sefydliadau trydydd sector, sefydliadau cynrychiolwyr cyflogwyr etc a all gynnig help a chefnogaeth sylweddol i gynllunwyr cwricwlwm – dylent deimlo'u bod yn cael eu grymuso i ymwneud â rhanddeiliaid newydd yn ogystal â'r cyfarwydd."
- Mynegwyd pryder gan ymarferydd ysgol brif ffrwd fod y canllawiau ychwanegol yn 'gorlwytho'r cwricwlwm' ac na fydd

gan athrawon y capasiti i weithredu'r canllawiau law yn llaw â'u llwyth gwaith presennol.

**Cwestiwn 8:** ***A oes unrhyw agweddau o'r canllawiau hyn nad ydynt yn ddigon manwl yn eich barn chi?***

3.41 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod agweddau o'r canllawiau a ddarparwyd nad ydynt yn ddigon manwl, gyda 30 o ymatebion yn ateb 'oes' i'r datganiad hwn, a 15 yn ateb 'nac oes'. Fel y nodwyd uchod, bwriad y ddogfen ganllawiau yw osgoi gorfodaeth a rhoi rhyddid i ymarferwyr gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm. Felly, mae rhai ceisiadau am fwy o fanylder drwy holl gwestiynau'r ymgynghoriad nad ydynt yn gyson ag egwyddor y canllawiau hyn.

3.42 Tynnwyd sylw at nifer o feysydd lle gallai'r canllawiau elwa o fanylder pellach. Roedd hyn yn cynnwys cydnawsedd mwy amlwg rhwng y canllawiau ychwanegol ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a blaenoriaethau a chynlluniau presennol Llywodraeth Cymru gan gynnwys: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), cyrraedd nodau newid hinsawdd, cynyddu amrywiaeth, a pharatoi pobl ifanc ar gyfer anghenion yr economi yn y dyfodol a 'byd newydd' gwaith. Yn ogystal, teimlai ymatebwyr fod angen i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fod yn cyson â'r cwricwlwm newydd gan gynnwys y defnydd o gamau cynnydd i wahaniaethu rhwng anghenion disgyblioniau a rhai hŷn ac i hwyluso mesur cynnydd yn y maes hwn.

3.43 Roedd nifer o ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am fanylder ychwanegol er mwyn sicrhau bod y canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn ymarferol ac yn ddefnyddiol i ymarferwyr wrth gynllunio'r agwedd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith i'w cwricwlwm. I'r perwyl hwn, argymhellwyd cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o'r arferion gorau. Mae Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu adnoddau wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

3.44 Roedd ymatebwyr yn awgrymu hefyd y gellid darparu rhestr o sefydliadau ‘cymeradwy’, y gellid eu defnyddio fel adnoddau ychwanegol yn y maes hwn. Roedd un ymatebydd yn tynnu sylw at gynllun Go Construct, ‘Experience, Educate and Engage’ a ddefnyddir gan y diwydiant adeiladu i godi ymwybyddiaeth, fel enghraifft o’r arferion gorau yn y maes hwn. Y teimlad gan ymatebwyr oedd y gallai enghreifftiau ychwanegol ac astudiaethau achos roi i ymarferwyr yr hyder sydd arnynt ei angen i weithredu canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith i’w helpu wrth gynllunio’r cwricwlwm.

3.45 Roedd disgwyl i’r angen hwn fod yn neilltuol o gryf ymysg ymarferwyr ysgolion cynradd, sydd â llai o brofiad yn hanesyddol o ymwneud ag gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Yn ogystal, teimlai un ymatebydd y gellid bod wedi rhoi mwy o eglurder ar y rôl a chwaraeir gan randdeiliaid allweddol megis consortia addysg rhanbarthol a darparwyr addysg bellach wrth weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

3.46 Maes arall lle teimlai ymatebwyr y gellid bod wedi cynnwys mwy o fanylder oedd wrth ymdrin ag amrywiaeth anghenion gwahanol ddysgwyr. Y teimlad oedd y byddai angen i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ymestyn dros ystod helaeth o ddysgwyr gan ddibynnu ar y lleoliad addysgol lle caiff eu cyflwyno, oedran y dysgwr a’r amrywiaeth o heriau ychwanegol y gallent eu hwynebu. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod wedi eu cyfyngu iddynt: anghenion dysgu ychwanegol, bod â’r Saesneg fel ail iaith, cymhwysedd am brydau ysgol am ddim, a bod yn berson ifanc nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ar gyfer lleoliadau arbenigol, awgrymwyd y gallai ffurfiau defnyddiol o gymorth gynnwys gwybodaeth berthnasol, gyfoes, am y farchnad lafur, a llwyfan chwilio am waith sy’n cynnwys cyfleoedd addas i lefel cymwysterau’r dysgwr, a all fod yn is na lefelau a gyrhaeddir yn arferol mewn lleoliad prif ffrwd. Roedd ymatebwyr yn amlygu’r angen i ganllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fod yn addas ac wedi eu teilwra i anghenion y dysgwr, gan sicrhau bod llais y dysgwr unigol i’w glywed drwy gydol y broses.

3.47 Roedd ymatebwyr yn cydnabod y rôl allweddol y mae Gyrfa Cymru eisoes yn ei chwarae ym maes cyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn ysgolion, gydag un ymatebydd yn dweud "bydd cefnogaeth Gyrfa Cymru yn hanfodol a hebddo byddai llawer o ysgolion yn ei chael yn anodd darparu cyfleoedd digonol i ddysgwyr." Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn teimlo hefyd, yn sgil cyfyngiadau adnoddau, fod angen mynd y tu hwnt i Gyrfa Cymru wrth gyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith gyda rhestr o adnoddau cymeradwy yn cael ei amlygu fel rhywbeth ag allai fod yn ddefnyddiol.

3.48 Fe wnaeth un ymatebydd dynnu sylw at ymchwil gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) ar recriwtio yn y sector adeiladu. Roedd yr ymchwil yn awgrymu bod canllawiau a chyngor ffurfiol ar yrfaoedd yn llai o ffactor wrth benderfynu ar ddewis o yrfa o gymharu â dulliau llai ffurfiol megis ymchwilio ar y rhyngrwyd, rhwydweithiau personol, cyfryngau cymdeithasol, ac athrawon. O'r canfyddiadau hyn, awgrymai'r ymatebydd mai ymwreiddio gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith drwy'r cwricwlwm ym mhob pwnc yw'r dull gorau o gynnig gwell mynediad i bobl ifanc at wybodaeth ynglŷn â chyfleoedd.

3.49 O ran trefnu profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith i ddysgwyr, roedd Gyrfa Cymru unwaith eto yn cael ei gydnabod fel ffynhonnell bwysig o gymorth i ysgolion, trwy ddefnyddio'u harbenigedd yn y maes hwn a gweithredu fel broceriaid rhwng cyflogwyr ac ysgolion yn y broses o drefnu lleoliadau profiad gwaith. O ganlyniad, teimlai ymatebwyr yr angen am fwy o fanylder ac eglurder ynghylch sut y byddai Gyrfa Cymru yn barhau i gefnogi yn y maes hwn oherwydd cydnabyddir y byddai ysgolion, heb eu cymorth, yn ei chael yn anodd trefnu lleoliadau gwaith addas, yn enwedig mewn lleoedd mwy gwledig sydd â llai o gyflogwyr lleol.

3.50 Roedd ymatebwyr yn awyddus i wybod hefyd sut fyddai ysgolion yn gallu mesur cynnydd a gyflawnwyd trwy weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, ac a fyddai'r cynnydd hwn yn destun gwerthuso allanol neu beidio, ac os oedd, sut. Dylai gwerthusiad o

ganlyniadau cyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaitho fewn y cwricwlwm fod yn seiliedig ar yr effaith ar ddysg a chynnydd dysgwyr.

3.51 Roedd sawl ymatebydd yn awgrymu y dylid meincnodi cynnydd er mwyn asesu pa ysgolion sy'n cyflawni'n dda yn y maes hwn. Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at fodel Gatsby fel mesur dibynadwy o gynnydd yn y maes hwn a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer meincnodi. Roedd un ymatebydd yn pwysleisio'r angen am nodau datblygu i asesu cynnydd yn y maes hwn megis 'proses raddol' ar gyfer cyflwyno pynciau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ar draws y cwricwlwm a 'dysgu proffesiynol' i ymarferwyr.

3.52 Yn ogystal â meysydd roedd ymatebwyr yn eu hamlygu fel rhai a allai o bosibl elwa o fwy o fanylder, fe wnaeth ymatebwyr hefyd godi nifer o gwestiynau nad oedd y canllawiau presennol yn rhoi digon o sylw iddynt yn eu barn hwy, gan gynnwys:

- Pwy fydd yn cyllido aelodau o'r proffesiwn i ymgymryd â lleoliadau gyda busnesau lleol?
- Pa safonau fydd yn ddisgwyliedig?
- Pwy fydd yn cefnogi ysgolion i addasu i'r newid?
- Pwy fydd yn asesu'r effaith?
- Pa randdeiliaid ddylai fod yn ymwneud â datblygu'r cwricwlwm?
- Sut fydd blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu hystyried?
- Sut y darperir ar gyfer anghenion gwahanol sectorau o'r economi?
- Pa botensial sydd am arbenigo?
- Sut mae ysgolion am gael eu dal i gyfrif ac ar sail pa feini prawf y maent am gael eu gwerthuso?
- Pwy sy'n mynd i gyflawni gwerthusiadau a pha awdurdod a fydd ganddynt?

**Cwestiwn 9:** ***A oes gennych unrhyw bwyntiau pellach i'w gwneud yn benodol am y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith neu a oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys yn eich barn chi?***

3.53 Roedd y mwyafrif o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn nodi cyfleoedd i wybodaeth ychwanegol gael ei chynnwys yn y canllawiau arfaethedig ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

3.54 Roedd mwyafrif o ymatebion yn awgrymu y gallai'r canllawiau elwa o gynnwys gwybodaeth ychwanegol megis:

- Sut y bydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn ymdrin ag amrywiaeth o anghenion dysgwyr gan gynnwys dysgwyr nad yw ysgol yn 'addas' iddynt, dysgwyr mewn lleoliadau nas cynhelir, a dysgwyr o amrywiol grwpiau oedran. Mewn lleoliadau addysgol nas cynhelir, roedd un ymatebydd yn argymell fod ar gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith angen cynnwys mwy o enghreifftiau cyfannol a pherthnasol i ennyn mwy o ddiddordeb megis dysgu trwy straeon, chwarae rhan, ymweliadau, ac ymwelwyr. Yn ogystal, cydnabyddir y bydd anghenion dysgwyr yn amrywio gydag oedran ac felly gallai defnyddio tabl cynnydd addas i'r oedran, tebyg i'r hyn a ddefnyddir yn y canllawiau ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, fod yn fuddiol er mwyn sicrhau bod gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn cael eu cyflwyno a'u mesur trwy gamau addas i'r oedran.
- Cydnabod pwysigrwydd datblygiad sgiliau allweddol: gan gynnwys entrepreneuriaeth cymdeithasol a sgiliau digidol, a sut y gellir defnyddio'r rhain i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol, ee, newid hinsawdd. Yn ogystal, y teimlad yw y gellid gosod mwy o bwyslais ar rôl gweithgareddau allgwricwlar wrth ddatblygu sgiliau allweddol a chyflogadwyedd.

- Sut yr ymdrinir â heriau parhaus profiad gwaith: gan gynnwys costau yswiriant uchel, ailflaenoriaethu gan ysgolion, diffyg perchnogaeth, a diffyg adnoddau. Teimlai un ymatebydd y gellid gosod isafswm gofynnol o brofiad gwaith ar gyfer pob dysgwr er mwyn mynd i'r afael â 'thanberfformiad hanesyddol' yn y maes hwn.
- Codi ymwybyddiaeth o fuddion gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith: teimlad ymatebwyr oedd, er mwyn i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fod yn llwyddiannus, byddai ar bartneriaid allweddol, gan gynnwys ysgolion, rhieni, gofalwyr a dysgwyr angen gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithwrth wella cyrhaeddiad, cyflogadwyedd, a chyflogau. Yn ogystal, roedd un ymatebydd yn pwysleisio sut y gallai fod ar fusnesau angen gwell dealltwriaeth o sut mae ymwneud â gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fudd i'w busnes a'r gymuned fusnes ehangach er mwyn ennyn eu diddordeb mewn cyflwyno cefnogaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithmewn ysgolion.
- Gwella ymwybyddiaeth o gyfleoedd ac adnoddau: teimlai ymatebwyr y gellid gwella buddion y canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith trwy roi pwyslais pellach ar y cyfleoedd a ddarperir gan golegau addysg bellach, astudio ieithoedd rhyngwladol, astudio'r Gymraeg, a chyd-drafod dyfnach gyda chyflogwyr, ee, ymweliadau a theithiau maes. Yn ogystal, roedd un ymatebydd yn pwysleisio y gallai fod yn fuddiol fod rhestr gynhwysfawr ar gael i ysgolion, y gellid ei defnyddio i gael cymorth a chanllawiau i alluogi mwy o hyblygrwydd i ysgolion wrth weithredu'r canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

3.55 Yn ogystal, teimlai nifer o ymatebwyr y gellid gwella'r canllawiau trwy roi mwy o eglurder ar y meysydd canlynol:

- Diffinio disgwyliadau a pherchnogaeth i ysgolion ac arweinwyr cwricwlwm gan nad yw gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithyn faes gorfodol
- Sut y caiff ysgolion eu mesur a'u monitro ar bob lefel i sicrhau cynnydd effeithiol
- Sut y bydd y gwaith o gynllunio cwricwlwm yn cael ei werthuso a'i wella'n barhaus
- Sut y gall ysgolion gynnwys cyflogwyr, consortia rhanbarthol, a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y broses o gyd-greu.

3.56 Roedd un ymatebydd yn teimlo bod graddau'r manylder a gynhwysir yn y canllawiau arfaethedig ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithyn ddigonol, gydag un ymatebydd yn dweud bod y "canllawiau wedi cael eu hysgrifennu'n fwriadol ar lefel uchel ac maent yn rhoi trosolwg a dealltwriaeth dda o beth yw gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, yn ogystal â sut y gellir eu gosod mewn cyd-destun o fewn y Cwricwlwm i Gymru."

**Cwestiwn 10:** ***Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar: gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg - peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.***

3.57 Roedd cyfanswm o 27 o ymatebwyr na wnaeth ddatgelu a oeddent yn disgwyl i y gallai cyflwyno canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithgael effaith ar y Gymraeg neu ar gydraddoldeb y modd roedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin. Fe wnaeth 21 o ymatebwyr roi adborth ar y cwestiwn hwn.

3.58 Roedd nifer o ymatebion yn cydnabod ac yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithi hyrwyddo'r Gymraeg gan ddweud:

- "Dw i'n gweld gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithfel dysgu ychwanegol er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth â myfyrwyr

sydd wedi eu harfogi'n well pan maent yn gadael addysg. Mae dysgu Cymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd yng Nghymru."

- Mae angen i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithedrych tuag allan at gyfleoedd Cymraeg mewn 'diwydiant, busnes a chymunedau Cymraeg'.
- "Rydym yn falch o weld cyfeiriad at bwysigrwydd fod dysgwyr yn 'ymwybodol o'r galw cynyddol am y Gymraeg yn y gweithle, wrth i Gymru weithio tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."

3.59 Roedd dau ymatebydd yn credu na fyddai'r canllawiau arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar y Gymraeg, neu y byddai'n cael 'effaith niwtral' ar y Gymraeg.

3.60 Roedd mwyafrif y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn tynnu sylw at gyfleoedd y gellid manteisio arnynt i hyrwyddo effaith cadarnhaol ar y Gymraeg. Roedd y cyfleoedd i ddatblygu mwy o gyfleoedd i effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg yn cynnwys:

- Cyfeiriad amlycach a mwy penodol ar yr angen i ymwreiddio'r Gymraeg mewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith
- Sicrwydd o'r un faint o fynediad o ran amser i adnoddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithgan gynnwys wrth gyflwyno hyfforddiant a chyrsiau
- Potensial i ddefnyddio dull trochi wrth gyflwyno adnoddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithyn y Gymraeg
- Tynnu sylw dysgwyr at y manteision o ddysgu Cymraeg i wella cyflogadwyedd
- Tynnu asylw cyflogwyr at y manteision o hyrwyddo gyrfaoedd Cymraeg a chyflogi siaradwyr Cymraeg
- Chwilio mwy am gyflogwyr Cymraeg sydd ar gael i gyflwyno cymorth i ysgolion
- Cyflogwyr Cymraeg i chwarae mwy o ran mewn digwyddiadau Cymraeg yn unig

- Ysgolion i ymwneud mwy â darparwyr dwyieithog o gymorth a chanllawiau cyflogaeth
- Canllawiau i ddysgwyr i sut i ddarganfod cyflogwyr Cymraeg wrth chwilio am swyddi
- Defnyddio enghreifftiau penodol, cyfoes o amrywiaeth o gwmnïau sy'n defnyddio'r Gymraeg fel y gall dysgwyr weld y budd o ddysgu Cymraeg i ddatblygiad eu gyrfa
- Potensial o ddefnyddio dull mwy lleol o integreiddio cyfleoedd Cymraeg i gyngor gyrfaoedd
- Potensial i geisio mewnbwn gan arbenigwyr Cymraeg gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyflogwyr Cymraeg
- Angen cadw cysylltiad rhwng busnesau Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau mwy o fynediad at fusnesau Cymraeg a mwy o ymwybyddiaeth ohonynt.

3.61 Teimlai lleiafrif o ymatebwyr fod y canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn ddigonol yn y modd mae'n trin y Gymraeg gan ddweud:

- "Credwn fod y ddogfen hon yn cefnogi uchelgais y Llywodraeth i sicrhau y bydd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."
- "Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi cyfleoedd i ysgolion weithredu'r iaith Gymraeg yn llawn yn ôl eu hanghenion."
- "Byddai'r canllawiau hyn yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn ymestyn y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg."

3.62 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi cryn dipyn mwy o fanylder a sylwadau ar yr effaith y bydd y canllawiau'n ei gael ar y Gymraeg na'r hyn a gasglwyd trwy'r gweithdai, heb ddim ond ychydig o gyfranogwyr yn rhannu eu syniadau. Roedd y rheini a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn yn teimlo'n gyffredinol nad oedd problemau penodol.

**Cwestiwn 11:** ***Eglurwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid ffurfio neu newid y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith: - fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg - fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg***

3.63 Nid oedd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Rhoddwyd sylwadau gan 11 o ymatebwyr, gyda thri ymatebydd arall ond yn cyfeirio at eu hatebion i'r cwestiwn blaenorol ("gweler yr ateb blaenorol," neu "gweler yr ateb i gwestiwn 10").

3.64 Roedd nifer o ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd integreiddio'r Gymraeg i ganllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaither mwyn "agor y muriau rhwng ysgolion a chyflogwyr a gweithwyr proffesiynol Cymraeg."

3.65 Roedd rhai o'r cyfleoedd a amlygwyd gan ymatebwyr i wella'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynnwys:

- Y cyfle i gynnwys y Gymraeg ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad yn y cwricwlwm newydd ac nid dim ond o fewn Maes Dysgu Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Annog gwell cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr a gweithwyr proffesiynol Cymraeg
- Cydnabod yr angen am gyfleoedd dwyieithog am adnoddau gyrfaoedd a thynnu sylw at yr adnoddau sydd eisoes ar gael gan Gyrfa Cymru
- Annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg trwy Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith
- Tynnu sylw at y galw am y Gymraeg o fewn y gweithle a'r buddion gyrfa cysylltiedig i ddysgwyr

- Tynnu sylw at fanteision dysgu Cymraeg o oedran cynnar.

## Sylwadau ychwanegol

3.66 Gofynnwyd i ymatebwyr adrodd ar unrhyw bryderon a oedd ganddynt ynghylch y canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithnad oedd wedi cael sylw penodol drwy'r cwestiynau blaenorol.

3.67 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn nodi nad oedd ganddynt faterion ychwanegol i'w codi ynghylch y canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

3.68 Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cyfle hwn i dynnu sylw at feysydd lle gallai fod angen manylder ychwanegol gan gynnwys:

- Gweithredu mewn lleoliadau cynradd a allai fod â llai o brofiad o weithredu cymorth a rhaglenni cysylltiedig ag gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith
- Gweithredu a monitro, mewn modd addas i'r oedran, cynnydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith
- Sut y gellir teilwra gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithi gynnwys amrywiaeth o anghenion dysgwyr unigol.

3.69 Roedd un ymatebydd yn pwysleisio'r angen am ganolbwyntio mwy ar sut y gall ysgolion ddarparu cymorth ychwanegol ar gerrig milltir penderfyniadau allweddol gan gynnwys Blwyddyn 9 a Blwyddyn 11 er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud dewis gwybodus ynghylch eu cynnydd. Dywedodd yr ymatebydd y canlynol: "Os yw'r pwyslais yn canolbwyntio'n ormodol ar beth y dylai ysgolion ei ddarparu i grwpiau neu gohortau o ddysgwyr, mae perygl i anghenion dysgwyr unigol fynd ar goll."

3.70 Roedd ymatebydd arall yn datgan yr angen i'r canllawiau gynnwys mwy o eglurder ynghylch perthynas gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaitha'r cwricwlwm nas cynhelir.

3.71 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio’r angen hefyd i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithddangos yn amlwg sut mae’n cydweddu â meysydd blaenoriaeth canlynol Llywodraeth Cymru:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015)
- Heriau amgylcheddol
- Entrepreneuriaeth
- Symudedd Cymdeithasol
- Amddifadedd.

3.72 Roedd rhai ymatebwyr yn codi pryderon fod y canllawiau’n brin o rai o’r manylion allweddol a gynhwysir yn y cwricwlwm newydd ac o ganlyniad teimlai’r ymatebwyr fod y canllawiau fel rhyw fath o atodiad iddo. Roedd un maes o’r fath y tynnwyd sylw ato gan ymatebwyr yn cynnwys cyfeirio’n benodol at gwricwlwm y sector nas cynhelir yng Nghymru, a’r teimlad oedd fod angen sicrhau cydraddoldeb statws rhwng y ddau gwricwlwm ac egluro’r berthynas rhwng gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a’r cwricwlwm nas cynhelir.

3.73 Teimlai ymatebwyr hefyd fod y canllawiau’n canolbwyntio gormod ar anghenion plant hŷn ac o ganlyniad ei fod yn brin o ganllawiau penodol i gefnogi ymdrin ag anghenion gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith plant iau mewn ffordd sy’n addas i’r oedran.

3.74 Roedd un ymatebydd yn pwysleisio’r angen i ganllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ymdrin yn benodol â herio stereoteipiau mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar i ychwanegu budd pellach i gyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithar oedran iau a chysylltu â chysyniadau allweddol eraill yn y cwricwlwm megis cydraddoldeb, hawliau, a moeseg.

3.75 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio’r angen hefyd ar i ganllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fod yn fwy ymarferol er mwyn i’r canllawiau gael eu ‘mewnoli’ yn yr ystafell ddosbarth. Roedd cyfleoedd am wella ymarferoldeb y canllawiau yn cynnwys defnyddio enghreifftiau ac astudiaethau achos o weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithmewn amrywiaeth o leoliadau ysgol fel y gall

ysgolion ddysgu o’r arferion gorau yn y maes hwn. Roedd un ymatebydd hefyd yn pwysleisio y gallai cynnwys ffeithluniau a lluniau yn y ddogfen gefnogi ac annog ymarferwyr i gynllunio’r cwricwlwm.

3.76 Roedd ymatebwyr yn cydnabod hefyd fod y tirwedd cyflogaeth yn newid yn barhaus, ac felly y dylai canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith gael eu hadolygu’n rheolaidd er mwyn parhau i fod yn berthnasol i anghenion y farchnad lafur. Yn ogystal, y teimlad oedd y byddai angen i’r adolygiad rheolaidd hwn gynnwys ymgynghori parhaus gydag ysgolion fel rhanddeiliaid allweddol wrth gweithredu canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

3.77 Roedd un ymatebydd yn tynnu sylw at y potensial i sefydlu rhwydwaith cenedlaethol a fyddai’n ymwneud ag ysgolion drwy gydol y flwyddyn ac yn eu cefnogi gyda gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm newydd. Nodir y byddai hyn yn neilluol o ddefnyddiol i ysgolion cynradd sydd â llai o brofiad o weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith nag ysgolion uwchradd.

3.78 Roedd sawl ymatebydd yn pwysleisio’r angen am feincnodi ymysg ysgolion er mwyn sicrhau bod gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithyn cael effaith mewn ysgolion. Awgrymwyd mai un model y gellid ei ddefnyddio wrth feincnodi ysgolion oedd meincnod Gatsby. Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd monitro cynnydd mewn gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ar draws ysgolion yng Nghymru. Roedd un ymatebydd yn awgrymu y gellid ychwanegu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithith at y rhestr o feysydd mae Estyn yn eu harolygu er mwyn mesur cynnydd, hwyluso dysgu o’r arferion gorau ac adnabod meysydd sy’n tanberfformio y gellid eu gwella trwy ddarparu cyngor a chymorth ychwanegol.

3.79 Er bod cyflogwyr yn awyddus i gyflwyno sesiynau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithmewn ysgolion, roedd ymatebwyr yn cydnabod bod angen am drydydd parti i froceru’r berthynas rhwng cyflogwyr ac ysgolion gan fod ysgolion yn aml yn brin o’r amser, adnoddau ac ymwybyddiaeth o gyflogwyr lleol i gysylltu â hwy. Cydnabuwyd y rôl

mae Gyrfa Cymru wedi ei chwarae yn hanesyddol yn y maes hwn, fodd bynnag, codwyd pryderon gan un ymatebydd ynghylch lefel yr adnoddau a ddarperir i Gyrfa Cymru er mwyn darparu cymorth.

3.80 Roedd un ymatebydd yn awgrymu mai un ffordd o ymdrin yn rhannol â'r mater hwn fyddai gael rhestr gynhwysfawr o "gyflenwyr cymeradwy" i gynnwys amrywiaeth helaethach o sefydliadau a all gynnig cymorth fel y gall ymarferwyr gael mwy o ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael a sicrhau bod yr hyn a gaffaelir gan ysgolion yn gymorth o ansawdd da.

3.81 Roedd ymatebydd arall yn pwysleisio pwysigrwydd cyd-drafod rhwng ysgolion a chyflogwyr trwy "adeiladu cydberthynas hirdymor, gynaliadwy sydd o fudd i'r ddwy ochr" lle mae cyflogwyr yn gallu adnabod pwysigrwydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithi'w gwaith a lle mae gan ysgolion syniad clir o'r hyn mae arnynt eisiau ei gael o'r berthynas â'r cyflogwr. Roedd yr ymatebydd yn tynnu sylw at faes ym Mhrosiect Peirianneg y Cymoedd fel enghraifft o arfer dda mewn hwyluso cysylltiadau yn y maes ymwneud â chyflogwyr.

3.82 Codwyd yr angen i ysgolion sefydlu mwy o gysylltiadau gyda darparwyr addysg bellach a hyfforddiant lleol, gyda hyn yn cael ei amlygu fel rhywbeth hanfodol ar gyfer hyrwyddo llwybrau gyrfaoedd, yn enwedig ar gamau cynharach addysg pan fo'r cysylltiadau hyn yn llai cyffredin ar hyn o bryd.

3.83 Fe wnaeth un ymatebydd hefyd rai sylwadau penodol ynghylch geiriad y canllawiau, gan godi pryderon gyda'r defnydd o'r termau 'risg' a 'chymryd risg', gan awgrymu y dylai'r termau hyn gael eu disodli gan dermau mwy amlwg gadarnhaol fel 'mentrus' neu 'arloesol'.

3.84 Yn olaf, roedd un ymatebydd yn codi pryder bod nifer o ymgyngoriadau ar ddiwygiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'r un pryd a bod rhai sefydliadau'n teimlo nad oedd ganddynt ddigon o amser i ymateb yn ddigon gan ddweud: "Mae'r pentwr diddiwedd o ymgyngoriadau ar y diwygiadau i'r cwricwlwm a'r dyddiad

cau o 16 Gorffennaf wedi golygu nad oes digon o amser a chwmpas i ymgynghori'n llawn ar y dogfennau pwysig hyn."

# 4. Ymatebion Ychwanegol

4.1 Yn ogystal â'r ymatebion a gwblhawyd gan unigolion i'r arolwg, derbyniodd yr ymgynghoriad hefyd chwe ymateb ar ran chwe sefydliad arwyddocaol perthnasol i gyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Cyflwynwyd ymatebion gan y grwpiau canlynol: Gyrfa Cymru, UNISON, Anabledd Dysgu Cymru, NASUWT (Undeb yr Athrawon), y TUC, a'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru.

4.2 Rhoddir sylw manylach i'r ymatebion hyn isod. Yn wyneb amrywiaeth y sefydliadau, a'r newidiadau sy'n digwydd mewn addysg – roedd beirniadaeth adeiladol i'w ddisgwyl. Dylid nodi fodd bynnag, fod rhywfaint o'r materion a godwyd trwy'r ymatebion ychwanegol y tu allan i gylch gwaith proses ymgynghori gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Er y cydnabyddir teimlad eu pryderon, mae'n bwysig cydnabod na ellir ymdrin â sylwadau yn y cyd-destun hwn ond mewn perthynas â'r ddogfen ganllawiau ychwanegol a'r hyn mae hon yn ceisio'i gyflawni.

**Gyrfa Cymru**

4.3 Roedd Gyrfa Cymru yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, gan ddweud eu bod yn gydnaws â chanllawiau ehangach y Cwricwlwm i Gymru, wrth bwysleisio cyfrifoldeb ysgolion a lleoliadau i gynllunio eu cwricwlwm gydag gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithfel thema drawsbynciol. Roedd rhai o'r materion a godwyd gan Gyrfa Cymru yn syrthio'r tu allan i gylch gwaith proses ymgynghori Gyrfa Cymru ac maent wedi eu hepgor yma.

4.4 Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod bod y canllawiau hyn yn rhai lefel uchel ac nad ydynt yn pennu sut i gynllunio a gweithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Roedd yr ymateb yn dweud bod y canllawiau'n wanach o ran rhoi gwybodaeth ynghylch sut y gallai ymarferwyr

weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fewn y cwricwlwm. Mae'n nodi'r angen am ddarparu cynnwys ychwanegol i ddarparwyr.

4.5 Dywed Gyrfa Cymru felly y bydd angen gwella'r canllawiau gydag enghreifftiau o'r arferion da o ysgolion a lleoliadau, ac adnoddau Dysgu Proffesiynol ychwanegol ar gyfer ymarferwyr. Yn ddelfrydol gallai'r enghreifftiau fod yn ffurf enghreifftiau o arferion da ar fideo er mwyn tynnu sylw at y gwaith da a gyflawnir mewn amrywiaeth o ysgolion a lleoliadau a gydag amrywiaeth helaeth o ddysgwyr.

4.6 Mae Gyrfa Cymru yn datgan eu hawydd i barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn darparu'r cymorth ychwanegol hwn trwy, er enghraifft, gyfres o adnoddau digidol Dysgu Proffesiynol sy'n anelu at ymarferwyr, y bydd Gyrfa Cymru yn symud ymlaen â hwy a'u gosod ar 'Hwb', llwyfan digidol Llywodraeth Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn awyddus i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn darparu cymorth i ysgolion a'u hymarferwyr wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

**UNISON Cymru**

4.7 Fel undeb llafur sy'n cynrychioli ymgynghorwyr gyrfaoedd, mae UNISON Cymru yn croesawu'r gydnabyddiaeth o Gyrfa Cymru fel partner arbenigol drwy'r holl ganllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Maent yn pwysleisio'r rôl sylweddol mae Gyrfa Cymru yn ei chwarae wrth helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau ar bwyntiau allweddol yn eu bywydau. Fel rhan o hyn, mae UNISON Cymru yn tynnu sylw at y gwaith pwysig mae staff Gyrfa Cymru wedi ei wneud wrth gefnogi pobl ifanc yn ystod amser arbennig o anodd – wrth gynnig cefnogaeth a cymorth i'r rheini sy'n ddi-waith, rhai sydd wedi gadael yr ysgol yn ddiweddar, y rheini ar ffyrlo, a'r rheini a wnaed yn ddi-waith o ganlyniad i Covid-19.

4.8 Mae UNISON Cymru yn codi pryderon ynghylch y graddau o adnoddau i Gyrfa Cymru er mwyn iddo barhau â'i waith rhagorol.

4.9 Mae UNISON Cymru yn tynnu sylw at y diffyg ystyriaeth a roddir i gynnwys gwaith undebau a hawliau cyflogaeth o fewn y canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

4.10 Gan ehangu ar y diffyg gwybodaeth ac ystyriaeth a roddir i hawliau cyflogaeth, awgryma UNISON Cymru fod gan y darnau canlynol o ganllawiau'r ymgynghoriad y potensial o ddarparu cyswllt naturiol i addysgu dysgwyr ar undebau llafur a'r hyn maent wedi ei gyflawni'n hanesyddol:

- Gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, t.7 "Dylai Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith ysbrydoli dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o ddiben gwaith mewn bywyd iddynt hwy eu hunain ac i gymdeithas fel cyfanrwydd."
- Gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, ffig.1 dylai ysgolion ystyried y canlynol wrth gynllunio Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith yn eu cwricwlwm – ffactorau gwleidyddol a ffactorau hanesyddol.
- Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith, t.11 Cydraddoldeb ac undebau "Trwy amrywiaeth helaeth o brofiadau gwirioneddol, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r pwysigrwydd mae cyflogwyr yn ei osod ar weithlu amrywiol a chynhwysol. Mae dysgu am stereoteipiau a gallu eu herio yn gwella ymwybyddiaeth o hawliau'r dysgwyr ym myd gwaith."
- Gyrfaeoedd a Phrofiadau Byd Gwaith, t.11 hanes byd gwaith.
- Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith, t.11 "Datblygu dealltwriaeth o hawliau cyflogaeth."
- Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith, t.12 "Wrth i sgiliau cyfathrebu dysgwyr aeddfedu, gallant ddod yn fwy ymwybodol o'u hawlilau ym myd gwaith ac yn fwy hyderus wrth herio ymddygiad negyddol."

4.11 Mae'r ddau bryder canolog a godwyd gan UNISON Cymru wedi adleisio materion a godwyd gan ymatebwyr eraill i'r ymgynghoriad yn y casgliad ehangach o ymatebion. Mae'r mater o ddarparu cyllid ac

adnoddau, yn ogystal â’r mater o ddarparu gwybodaeth gyd-destunol a hanesyddol fanwl ar y farchnad lafur sy’n newid yn feysydd cyffredin mae ymatebwyr wedi gofyn am ystyriaeth bellach ohonynt.

**Anabledd Dysgu Cymru**

4.12 Roedd llawer o’r pryderon a godwyd gan Anabledd Dysgu Cymru yn berthnasol i’r canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Fodd bynnag, mae pwyntiau allweddol eraill yn syrthio y tu allan i gylch gwaith y broses ymgynghori. Roedd y meysydd allweddol y codwyd amheuon yn eu cylch yn cynnwys gallu’r canllawiau i weithredu i *bob* dysgwr, diffyg ystyriaeth bellach o’r rhwystrau sy’n wynebu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wrth hwyluso gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a diffyg gosod cyd-destun ehangach i’r anawsterau mae cyflogwyr yn eu creu i bobl anabl yn y gweithle.

4.13 Deuant i’r casgliad fod yn rhaid i ddealltwriaeth o faterion anabledd gael eu integreiddio i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaither mwyn goresgyn problemau anghydraddoldeb a’r teimladau o annigonolrwydd mae disgyblion ag anableddau dysgu yn eu profi’n aml. Mae Anabledd Dysgu Cymru yn pwysleisio’r hawl i bobl sydd ag anableddau dysgu chwarae rhan lawn mewn cymdeithas, rhywbeth na ellir ei gyflawni os na roddir iddynt fynediad cyfartal at gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Er mwyn ymrwymo i hyn, dywedir y gall fod angen cefnogaeth ychwanegol (yn enwedig ar lefel unigolion) trwy gymorth ymgynghorydd hyfforddedig.

4.14 Mae’r ymateb gan Anabledd Dysgu Cymru yn awgrymu hefyd y gall fod angen dull mwy cyfannol er mwyn goresgyn y materion hyn a chyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn modd cwbl gynhwysol. Gwnaed sylwadau yn fwy penodol ynghylch disgyblion yn gwybod eu hawliau cyflogaeth. Maent yn pwysleisio’r ffaith fod yn rhaid i ddysgwyr anabl gael gwybod bod ganddynt yr hawl i addasiadau rhesymol gael eu gwneud er mwyn ‘sicrhau bod swyddi’n

cael eu gwneud yn addas ar eu cyfer'. Mae Anabledd Dysgu Cymru yn awgrymu nifer o feysydd i Gyrfa Cymru weithio gyda'r rhanddeiliaid presennol i gynnwys amrywiaeth helaethach o leisiau, i sicrhau bod cefnogaeth ddigonol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

4.15 O ran mesurau ymarferol ychwanegol, mae Anabledd Dysgu Cymru yn argymell y dylai fod yn ofynnol i fwy o sefydliadau alluogi myfyrwyr i gael profiadau cysylltiedig â gwaith. Dylai'r rhain gynnwys sefydliadau Trydydd Sector, yn enwedig y rheini sy'n cynnig cymorth i bobl anabl yn y gweithle. Er mwyn galluogi'r lefel briodol o gymorth, codwyd hefyd y mater o gyllid. Mae Anabledd Dysgu Cymru yn adrodd bod, yn ôl eu harbenigedd hwy, angen cyllid ar gyfer hwyluso hyfforddiant swyddi, yn ogystal â chaniatáu ar gyfer teithio. Yn amlwg, mae nifer o ardaloedd gwledig yng Nghymru sy'n peri rhwystrau daearyddol i ennill profiadau seiliedig ar waith.

4.16 Mae Anabledd Dysgu Cymru yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i *'edrych yn benodol i mewn i gyflogaeth a gefnogir a sut y gellir integreiddio hyn i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn cael cyfle teg'.* Gall asiantaethau cyflogaeth a gefnogir gynnig y cymorth angenrheidiol, arbenigol, ac mae Anabledd Dysgu Cymru hefyd yn croesawu'r cydweithio â Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru i sicrhau y gellir cynnig cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

4.17 Yn olaf, mae Anabledd Dysgu Cymru hefyd yn cynnig nifer bach o newidiadau penodol i'r canllawiau, y byddai eu gwneud yn caniatáu ar gyfer gwell ystyriaeth o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Manylir arnynt fel a ganlyn:

- **Tudalen 5 -** "Mae gweithredu'r sgiliau hyn yn eu llwybr gyrfa eu hunain yn helpu dysgwr i ddeall yn well y gydberthynas rhwng risg a gwobr, a sut mae hyn yn effeithio ar eu profiad o fyd gwaith". Mae'r defnydd o'r gair "risg" yn aneglur yma. Efallai y byddai'n fwy addas annog myfyrwyr i dyfu a symud allan o'r lle maent yn teimlo'n gysurus ynddo.

- Mae angen ehangu'r diffiniad o **effeithiolrwydd personol** ac mae angen iddo ganolbwyntio mwy ar y person. Ym mhrofiad ein partneriaid cyflawni prosiectau, mae'n hanfodol i bobl ag anableddau dysgu ddeall eu sgiliau eu hunain a sut i wella eu heffeithiolrwydd personol mewn ffordd briodol a chynwysol er mwyn llwyddo yn y gweithle. Dylai'r canllawiau felly adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar y person.
- **Tudalen 5: Rhifedd** – Gallai hyn fod yn fwy penodol ynghylch beth mae "gweithredu sgiliau rhifedd" yn ei olygu mewn gwirionedd.
- **Tudalen 9: Gweledigaeth** – Dywed y canllawiau: "Dylai ysgolion a lleoliadau sefydlu eu gweledigaeth i gefnogi cynnydd mewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Dylai hyn gynnwys blaenoriaethau allweddol ar gyfer dysgu, cynllunio gyrfa, pontio llwyddiannus, ac ymwneud y tu hwnt i'r ysgol neu leoliad." Dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy penodol ynghylch beth ddylai'r weledigaeth hon fod, gan ei gwneud yn glir bod disgwyl i ysgolion weithio tuag at y weledigaeth hon a chreu cyfleoedd i bob dysgwr. Dylai ysgolion hefyd orfod amlinellu eu gweledigaeth ar sut i gefnogi'n benodol myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Gallai fod angen am nodau datblygiad, megis proses raddol ar gyfer cyflwyno pynciau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithar draws y cwricwlwm a dysgu proffesiynol i ymarferwyr.
- **Tudalen 10: Gwerthuso** – Nid yw'r adran ar werthuso yn ddigon penodol, gyda rhy ychydig o wybodaeth ar sut mae ysgolion am gael eu dal i gyfrif ac ar ba feini prawf maent am gael eu gwerthuso. Yn ogystal, nid yw'n eglur pwy sy'n mynd i gyflawni gwerthusiadau a pha awdurdod a fydd ganddynt.

**NASUWT Cymru – Undeb yr Athrawon**

4.18 Mae'r ymateb gan NASUWT yn cyflwyno nifer o bryderon sy'n berthnasol i'r canllawiau hyn ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd

gwaith, ac sy'n ceisio ymdrin â phryderon ychwanegol ar ran y proffesiwn addysgu. Cydnabyddir bod llawer o'r pryderon yn ddilys, ond yn disgyn y tu allan i gylch gwaith y broses ymgynghori ar gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

4.19 Mae'r ddogfen ymateb lawn yn rhychwantu ar draws amrywiaeth o faterion, ac i ddiben crynhoi maent wedi eu gosod at ei gilydd yn yr adran hon lle bo'n bosibl. Mae'r agoriad i'r datganiad yn cynnwys rhestr o sylwadau cyffredinol ar y canllawiau ychwanegol, a rennir isod. Er mwyn sicrhau canlyniadau uchel i bob plentyn, dywed NASUWT fod angen gweithredu i gyflawni'r canlynol:

- Darparu profiad eang, cytbwys a pherthnasol o gwricwlwm sy'n addas i'r 21ain ganrif
- Sicrhau cydraddoldeb parch rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol, a dimensiynau gwybyddol, emosiynol, diwylliannol, creadigol, moesegol a chymdeithasol dysgu
- Ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol a choleg a gyllidir gan y wladwriaeth weithio gyda'i gilydd i sicrhau hawl i gwricwlwm cynhwysfawr i bob person ifanc 14-19 oed
- Arfogi plant a phobl ifanc i fod yn ddatryswyr problemau trwy ymchwil
- Ymestyn hawliau i bob plentyn a pherson ifanc i addysg academaidd a galwedigaethol o ansawdd uchel, ynghyd â chydraddoldeb mynediad at gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel ac ymarferol seiliedig ar waith
- Addasu pwyslais y system atebolrwydd i adlewyrchu a chefnogi'r disgwyliad y dylai pob person ifanc barhau mewn addysg a hyfforddiant hyd at 18 oed.

4.20 Y prif ddiben i NASUWT wrth rannu'r sylwadau / meini prawf cyffredinol hyn yw dangos y bwlch rhwng y lefel o ddarpariaeth y credant y dylid ei chyflwyno, a fframwaith y cwricwlwm fel mae'n sefyll. O safbwynt yr NASUWT, '*nid yw fframwaith presennol y cwricwlwm yn bodloni'r profion pwysig hyn*.'

4.21 Wrth drafod ymhellach gyd-destun penodol y canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, mae'r NASUWT yn cydnabod angen i'r canllawiau hefyd ddod yn statudol i sefydliadau fel Gyrfa Cymru. Maent yn pwysleisio'r angen am 'gydymffurfio traws-sefydliadol' er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gyfrifoldebau yn y broses o ddatblygu a gweithredu'r cwricwlwm.

4.22 Mae'r NASUWT hefyd yn galw am gynyddu a gwella rhannu enghreifftiau o fewn y canllawiau – teimlad a adleisir gan ymatebwyr eraill, yn enwedig gan ymarferwyr lleoliadau cynradd. I ddarlunio hyn, maent yn cyfeirio at y pwynt ar 'ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr fod yn greadigol trwy brofiadau dilys a seiliedig ar chwarae.' Gall y rhain deimlo fel cyfeiriadau haniaethol os nad ydynt law yn llaw ag awgrymiadau ac enghreifftiau dealladwy.

Gofynnir hefyd ynghylch y gofyniad i rieni a gofalwyr gael eu cynnwys yn y broses o gefnogi gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, gyda chais yn cael ei wneud am enghreifftiau ymarferol fel bod gan ysgolion ddealltwriaeth ddigonol o ddisgwyliadau.

**Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru**

4.23 Cyflwynodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru ddatganiad ymateb byr, yn croesawu'n bennaf y cyfeiriadau a wneir o fewn y canllawiau at fodelau rôl amrywiol ac at wneud profiad gwaith yn fwy hygyrch i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

4.24 Yn wyneb y mythau a'r camddealltwriaethau ers amser maith ynghylch gallu disgyblion sydd ag anghenon dysgu ychwanegol mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn canmol y canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaitham ddangos rhywfaint o ystyriaeth tuag at hyn.

4.25 I adeiladu ar y canllawiau, mae'r Gymdeithas yn argymell cyfeirio clir at sefydliadau fel hwy, er mwyn cefnogi a chynorthwyo gyda hwyluso gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaithi ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a hyrwyddo dealltwriaeth o'r materion hyn.

4.26 Yn bennaf, mae'r Gymdeithas yn argymell fod y canllawiau yn 'mynd ymhellach' yn y sylw maent yn ei roi i faterion fel hawliau anabledd mewn cyflogaeth, megis y cynllun Mynediad at Waith a'r hawl i addasiadau rhesymol. Mae'r sylwadau hyn yn atgyfnerthu'r rheini a wnaed trwy ddatganiadau sefydliadau eraill – pwysleisio pwysigrwydd cyfleu hawliau cyflogaeth er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bobl ifanc.

**TUC Cymru**

4.27 Mynegodd TUC Cymru bryder penodol ynghylch y diffyg gwybodaeth yn y canllawiau ar hawliau gwaith a rôl undebau llafur mewn dogfen ganllawiau sy'n ymwneud â gyrfaoedd a phrofiadau seiliedig ar waith.

4.28 Mae ymateb y TUC yn tynnu sylw at y ffaith fod tua 400,000 o bobl yn aelodau o undebau llafur yng Nghymru, sy'n golygu bod dealltwriaeth o undebau llafur yn uniongyrchol berthnasol i gyfran sylweddol o'r boblogaeth oedolion.

4.29 Yn allweddol, dywed y TUC fod methu â rhoi gwybod i bobl ifanc am eu hawliau gwaith, ac yn wir eu hawliau cyfreithiol, yn eu gwneud hwy'n agoed i gamfanteisio gan gyflogwyr.

4.30 Mae'r ymateb hefyd yn nodi'r anghysondeb rhwng y negeseuon yn y ddogfen hon am y cwricwlwm cenedlaethol, a blaenoriaethau eraill y Llywodraeth. Mae'n nodi: *'Mae'n anghydnaws hefyd i lywodraeth sydd wedi ymrwymo i bartneriaeth gymdeithasol (ac sy'n cydnabod mai ymuno ag undeb llafur yw'r ffordd orau o amddiffyn eich hawliau yn y gwaith) i ddrafftio dogfen mor allweddol yn y modd hwn*.'

4.31 Mae'r TUC yn pwysleisio pa mor gyffredin yw camfanteisio ym marchnad lafur Cymru fel rheswm allweddol dros yr angen i ddatblygu dinasyddion gwybodus sydd wedi eu harfogi i wrthsefyll amddifadu o hawliau. I ychwanegu cyd-destun i hyn, mae'r ymateb yn manylu ar nifer o ffurfiau cyffredin o gamddefnyddio llafur sy'n fwyaf tebygol o ddigwydd mewn swyddi cyflogau isel. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hunan-gyflogaeth ffug (osgoi rigiau a chyfrifoldebau cyflogi megis tâl salwch trwy statws hunan-gyflogaeth ffug)
- Enillion (dal enillion yn ôl gan gynnwys tâl gwyliau a thâl goramser)
- Asiantaethau llafur a chwmnïau ambarél (amddifadu gweithwyr o'u hawliau gwyliau, codi ar weithwyr am eu hamser gwyliau).
- Safonau iechyd a diogelwch gwael (mae risgiau iechyd yn uchel ac mae gweithwyr adeiladu yn 4x mwy tebygol o ddioddef damwain angheuol na gweithwyr ar draws yr holl ddiwydiannau eraill)

4.32 I ddangos pa mor gyffredin yw'r problemau hyn, mae ymateb y TUC yn crybwyll ffigur a gyflwynwyd gan y Comisiwn Tâl Isel, sy'n amcangyfrif bod tua 300,000 o weithwyr wedi cael eu talu islaw'r cyfraddau isafswm cyfreithiol y llynedd.

4.33 Yn ogystal â hyn, mae ymateb y TUC yn awgrymu bod y materion hyn yn arbennig o berthnasol i bobl ifanc, gan fod tan-dalu yn gyffredin ar lefel mynediad – lle bo pobl ifanc yn cychwyn ym myd gwaith ac yn ceisio ennill profiaf. Mae enghreifftiau amlwg o hyn yn cynnwys prentisiaethau sy'n tan-dalu, sifftiau treialu di-dâl (yn enwedig yn y sector lletygarwch), ac interniaethau. Mae'r TUC yn pwysleisio yr amcangyfrifir bod un o bob tri phrentis yn derbyn tâl anghyfreithlon. Os nad yw dinasyddion ifanc yn cael gwybod am y materion hyn, daw'n haws i gyflogwyr a chwmnïau asiantaeth ac iddynt arferion gwael fanteisio ar eu diffyg profiad.

4.34 Mae ymateb y TUC yn tynnu sylw at nifer o fanteision y gall darparu'r wybodaeth hon eu cael, gan gynnwys gweithwyr yn sicrhau tâl, amodau a thelerau gwell, ac amgylcheddau gweithio diogelach. Mae'r TUC yn nodi'r dyfyniad uniongyrchol canlynol o Comisiwn Gwaith Teg Llywodraeth Cymru sy'n argymell: *'Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd pob mesur posibl o fewn ei chylch cymhwysedd i gefnogi a hyrwyddo undebau llafur a bargeiion ar y cyd.'* Deuant i'r casgliad fod *'hepgor undebau llafur o'r holl gwricwlwm Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith yn gwrthod yr argymhelliad hwn a rôl hawliau llafur cyffredinol'.*

4.35 Hoffai'r TUC gynorthwyo gyda 'mynd ati ar frys i gywiro hyn', a chynnig eu cymorth ac adnoddau i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu datblygu a'u gweithredu mewn partneriaeth gymdeithasol i gyd-fynd â'r agenda Gwaith Teg.

## 5. Gweithdai Ymgynghori

5.1 Mae'r bennod hon yn nodi canfyddiadau chwe gweithdy a gynhaliwyd rhwng 16 Mehefin 2021 ac 8 Gorffennaf 2021 (gweler Tabl 1). Daeth 80 o gyfranogwyr i'r gweithdai, a'r rheini cynrychioli'r holl grwpiau targed allweddol.

**Tabl 1 - Dyddiadau gweithdai a grwpiau targed**

| | Dyddiad | Grŵp targed | Presennol |
|---|---|---|---|
| 1 | Dydd Mercher 16 Mehefin | Lleoliadau ysgolion gynradd | 10 |
| 2 | Dydd Iau 17 Mehefin | Cyflogwyr | 12 |
| 3 | Dydd Mercher 23 Mehefin | Rhanddeiliaid – Gyrfa Cymru, awdurdodau lleol, Consortia Rhanbarthol etc. | 23 |
| 4 | Dydd Iau 1 Gorffennaf | Lleoliadau ysgolion uwchradd | 11 |
| 5 | Dydd Mawrth 6 Gorffennaf | Unedau Cyfeirio Disgyblion / Addysg Heblaw yn yr Ysgol | 7 |
| 6 | Dydd Iau 8 Gorffennaf | Pob grŵp targed | 16 |

Roedd llawer o'r ymatebion a dderbyniwyd yn y gweithdai yn gwrth-ddweud ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ffurfiol trwy'r ymgynghoriad ar y canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Roedd y gweithdai hyn yn helpu i gydbwyso'r ymatebion hyn ac yn rhoi mwy o fanylder ar y meysydd i ganolbwyntio arnynt wrth fireinio'r canllawiau. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru, wrth gweithio'n agos gyda grŵp ymarferwyr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, ystyried ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad yn ogystal ag allbynnau'r gweithdai hyn gyda'i gilydd wrth fireinio'r canllawiau.

**Cwestiwn 1**

A oes perthynas glir rhwng y canllawiau Cwricwlwm i Gymru drafft hyn ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sy’n gysylltiedig â Byd Gwaith a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru?

5.2 Roedd cyfranwyr yn **croesawu’r canllawiau penodol ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith**: ‘mae’r canllawiau’n wych’, ‘mae’r canllawiau’n wirioneddol gynhwysfawr’.

5.3 Teimlai cyfranwyr fod y **perthynas glir rhwng y canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru** yn enwedig o safbwynt eu gweledigaeth o gwricwlwm sydd ynglyn â chodi dyheadau ac ymestyn gorwelion.

5.4 **Roedd terminoleg gyson yn cael ei defnyddio drwy’r holl** ganllawiau drafft hyn ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru er bod cyflogwyr a’r rheini a oedd â gwybodaeth lai uniongyrchol o’r Cwricwlwm newydd i Gymru yn tueddu i’w gael ‘wedi ei orlwytho â therminoleg’ ac felly’n croesawu’r eirfa glir.

5.5 Roedd cyfranwyr yn cydnabod bod tensiwn bob amser rhwng yr hyn a gynhwysir mewn canllawiau statudol a pharhau i ganiatáu rhyddid i wahanol leoliadau addasu a dehongli’r canllawiau mewn ffordd a oedd yn addas i’r diben. Teimlai cyfranwyr fod **y canllawiau drafft ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith wedi cael y cydbwysedd yn iawn ar y cyfan.**

5.6 Roedd cyfranwyr yn nodi bod y canllawiau drafft hyn ar gyfer Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith **yn gydnaws iawn ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**.

**Cwestiwn 2**

A yw’r canllawiau drafft hyn ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn darparu’n ddigonol ar gyfer anghenion pob dysgwr o 3 i 16 oed, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu

ychwanegol wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu mewn ysgolion a lleoliadau eraill?

5.7 Roedd holl gyfranwyr y gweithdai yn ymateb yn ffafriol i'r ffaith fod y canllawiau drafft yn ymwneud â dysgwyr o 3 oed i 16 oed. Roedd **cyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o leoliadau blynyddoedd cynnar yn cael ei groesawu** a'r cynnwys yn cael ei ystyried fel rhywbeth 'cyffrous i ysgolion cynradd'.

5.8 Yn yr un modd, o fewn lleoliadau ysgolion uwchradd, roedd cyfranwyr yn croesawu'r cyfeiriadau at gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ym Mlynyddoedd 7-9.

5.9 Yn gyffredinol, roedd cyfranwyr yn canmol sut roedd y **ddogfen ganllawiau drafft yn rhoi hyblygrwydd** yn enwedig i unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond gan fod lleoliadau o'r fath yn tueddu i ddilyn cwricwlwm mwy seiliedig ar sgiliau, roedd awgrymiadau y gellid adlewyrchu hyn yn well yn y canllawiau drafft ac y gellid dangos y gwahaniaeth yn gliriach.

5.10 Byddai rhai cyfranwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd yn croesawu **mwy o gynnwys ac eglurder ynghylch camau cynnydd** gyda disgwyliadau am y continiwm dysgu yn cael eu mynegi yn y canllawiau, er bod eraill yn teimlo bod y canllawiau'n mynd cyn belled ag y gallent ar y mater hwn: 'fel ysgol 3-16 gallaf weld yr holl ddilyniant'.

5.11 Gan fod gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn rhywbeth newydd i'r mwyafrif o leoliadau ysgolion cynradd, roedd ymarferwyr a chyflogwyr fel ei gilydd yn awyddus am fwy o eglurder: 'beth yw'r disgwyliad ar gyfer ysgolion cynradd o gymharu ag ysgolion uwchradd?', yn enwedig o safbwynt agweddau cynllunio a rheoli gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

**Cwestiwn 3**

A yw'r canllawiau drafft hyn yn gosod cyd-destun ar gyfer dysgu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith i helpu ysgolion a lleoliadau eraill wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu i ddysgwyr?

5.12 Bu cyfranwyr yn trafod yn fanwl sut mae'r canllawiau drafft yn gosod dysgu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yng nghyd-destun sgiliau a meysydd dysgu.

5.13 O safbwynt **gosod cyd-destun i sgiliau trwy gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith**, roedd sylwadau gan gyfranwyr yn cynnwys:

- **gellir integreiddio'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben yn hawdd i ddysgu ehangach** ee, sgiliau gwaith tîm, meddwl yn greadigol, dangos arweiniad
- roedd canmoliaeth arbennig i'r negeseuon allweddol yn y canllawiau drafft ynghylch datblygu **agweddau ac ymddygiadau parod ar gyfer gyrfaoedd**.
- roedd y sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben i gyd yn **sgiliau cyflogadwyedd** allweddol yn cael eu croesawu gan gyflogwyr fel elfennau a oedd â rôl mwy canolog yn y cwricwlwm ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.
- roedd cyflogwyr yn enwedig yn hoffi'r **pwyslais ar 'entrepreneuriaeth'** yn ei ystyr ehangach – sef, 'meddwl mewn modd entrepreneuraidd'.
- cafodd y **sgiliau trawsbynciol rhifedd a llythrennedd eu hamlinellu'n glir** a rhoddwyd sylw da iddynt.
- cafodd y **pwyslais ar lythrennedd digidol ei groesawu'n benodol** gan gyflogwyr.
- roedd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yng nghyd-destun sgiliau yn neilltuol o bwysig i rai lleoliadau (yn enwedig darparwyr unedau cyfeirio disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol) mewn cael dysgwyr yn barod am fyd gwaith.

5.14 O ran **gosod gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yng nghyd-destun Meysydd Dysgu a Phrofiad**, gwnaed y sylwadau canlynol gan gyfranwyr:

- mae gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn mynd law yn llaw yn dda iawn â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gydol yr adran hon o'r canllawiau drafft gyda **disgrifyddion Meysydd Dysgu a Phrofiad yn rhoi manylder digonol.**
- mae'r canllawiau drafft yn nodi'n glir sut y dylid gosod Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith mewn cyd-destun drwy'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad – 'mae addysg gyrfaoedd yn y gorffennol wedi bod yn atodiad bob amser ond yn y canllawiau hyn mae wedi'i ymwreiddio mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad – gall weithredu ym mhob ystafell ddosbarth yn rhwydd'.
- teimlai rhai cyfranwyr fod yr agwedd hon o'r canllawau ychydig yn fformiwläig ac yn ailadrodd themâu allweddol sydd eisoes yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.

**Cwestiwn 4**

A yw'r canllawiau drafft hyn yn rhoi gwybodaeth glir yn amlinellu pwy ddylai fod yn gyfrifol am wahanol agweddau o gynllunio a gweithredu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn y cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau eraill?

5.15 Yn gyffredinol, roedd yr adran hon o'r canllawiau drafft ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn cael ei chanmol, yn enwedig ei **dull 'ysgol gyfan'** a'r pwyslais ar gynnwys rhieni, gofalwyr, elusennau, a chymunedau mewn gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

5.16 Roedd cyfrannwyr yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn **ymwreiddio mewn Cynlluniau Gwella Ysgolion** fel bod y dull yn cael ei adolygu a'i werthuso'n llawn.

5.17 Roedd llawer o drafod ym mhob gweithdy ynghylch **atebolrwydd dros gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith** mewn amrywiol leoliadau a manteision ac anfanteision dynodi unigolion i arwain neu hyrwyddo gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Roedd y farn yn gymysg, yn enwedig o leoliadau ysgolion cynradd, gyda llawer yn teimlo y dylai'r canllawiau ddyrannu'r rôl yn benodol i aelod o'r uwch-dîm rheoli.

Mewn lleoliadau ysgolion uwchradd y teimlad oedd bod arweinwyr cwricwlwm eisoes mewn sefyllfa dda i gymryd perchnogaeth o gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Ar y cyfan, cytunwyd na ddylai atebolrwydd am gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith gael ei bennu i un unigolyn gan y byddai'n amrywio yn ôl y lleoliad.

5.18 O ran camau ar gyfer cynllunio gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y Cwricwlwm, gwneud amryw o sylwadau penodol ynghylch y camau a amlinellir yn y canllawiau:

- **Cam 1: Adolygu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm** – teimlai amryw o gyfranwyr y byddai'r adran hon yn elwa o fwy o eglurder o ran 'pwy' ddylai fod yn rhan o'r broses adolygu hon, gydag awgrym y gellid cyflwyno proses i fapio neu olrhain gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn yr adran hon o'r canllawiau.
- **Cam 2: Sefydlu gweledigaeth ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith** – roedd y cam hwn yn cael ei groesawu'n gyffredinol, ond roedd cyfranwyr yn amau a oedd rhai o'r blaenoriaethau allweddol y 'dylid' eu cynnwys yma, megis 'cynllunio gyrfa' yn addas ym mhob lleoliad (er enghraifft efallai na fyddai'n addas ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar ysgolion cynradd) ac felly gellid defnyddio iaith fwy hyblyg.
- **Cam 3: Adnoddau a chymorth ar gyfer darparu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith** – er bod y cam hwn yn cyfeirio'n gyffredinol at yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, roedd cyfranwyr yn galw ar i rôl Gyrfa Cymru gael ei gwneud yn fwy eglur a diamwys ac am gynnwys yma fwy o gyfeirio at y cymorth sydd ar gael. Yn y cyswllt hwn, awgrymwyd y dylai'r canllawiau fod yn ddogfen 'fyw' y gellid ei haddasu'n rheolaidd. Roedd cyflogwyr yn awyddus i ymwneud ag ysgolion a lleoliadau eraill ond nid oeddent yn glir sut y gellid cyflawni hyn. Yn yr un modd, roedd amryw o leoliadau (yn enwedig ysgolion

cynradd) yn ansicr ynghylch yr adnoddau sydd ar gael a sut y gallent gael gafael arnynt a byddent yn croesawu eglurder ar hyn. Roedd cyfranwyr eraill yn dweud y byddai mwy o eglurder o ran sut y gallai rhieni a gofalwyr gefnogi gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn cael ei groesawu yn y canllawiau yma.

- **Cam 4: Amlinellu darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith**– ni dderbyniwyd llawer o sylwadau ar y cam hwn ac roedd cytundeb cyffredinol yn ei gylch.
- **Cam 5: Gwerthuso darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith**– roedd cyfranwyr yn nodi'r cam hwn fel un o bwysigrwydd allweddol y gellid ei gryfhau er mwyn sicrhau ei bod yn glir o'r canllawiau fod disgwyliad ar leoliadau i werthuso'n rheolaidd eu dull o gyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Yn benodol, roedd cyfranwyr yn galw am fframwaith gwerthuso syml a fyddai'n eu galluogi i ddangos cynnydd yn nhermau sgiliau a gwybodaeth dysgwyr. Yn ogystal, y farn oedd bod rôl llais y dysgwr yn allweddol fel y ffordd orau o werthuso a oedd yr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a ddarperir yn ymateb yn ôl anghenion y dysgwr unigol.

5.19 Roedd cyfranwyr yn croesawu'r adran o'r canllawiau drafft ar **wybodaeth am y farchnad lafur** a theimlent ei bod yn bwysig i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ystyried hyn fel bod y cwricwlwm yn **adlewyrchu'r economi leol a'r cyfleoedd sydd ar gael yn lleol**. Fodd bynnag, law yn llaw â hyn, y teimlad oedd y byddai ar ymarferwyr angen i'r wybodaeth hon ar y farchnad lafur gael ei hysbysu a'i darparu iddynt yn rheolaidd, trwy gyfleoedd Dysgu Proffesiynol.

**Cwestiwn 5**

A yw’r canllawiau drafft hyn yn cefnogi a helpu ysgolion a lleoliadau eraill i integreiddio Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy’n Gysylltiedig â Byd Gwaith wrth gynllunio a gweithredu’r cwricwlwm ac asesu dysgwyr?

5.20 Teimlai cyfranwyr fod y canllawiau drafft ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn ddefnyddiol wrth ddarparu’r gefnogaeth a’r help angenrheidiol i alluogi ysgolion a lleoliadau eraill fynd ati i gynllunio dysgu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm.

5.21 Roedd cyfranwyr yn hoffi’r adran yn y canllawiau a oedd yn cyfeirio at yr amrywiaeth helaeth o gyfranwyr at gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith effeithiol, ac yn croesawu’r ffaith fod **llywodraethwyr ac uwch-reolwyr yn cael eu gweld fel rhai sy’n chwarae rôl allweddol**. Teimlai rhai cyfranwyr fod angen i rôl arweinwyr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn lleoliadau heblaw ysgolion uwchradd gael eu ei diffinio’n gliriach ac roedd rhai yn amau a ddylai hon fod yn rôl ddiffiniedig ym mhob lleoliad neu beidio.

5.22 Roedd cyfranwyr yn **falch o weld Gyrfa Cymru yn cael ei grybwyll yn benodol** yn y canllawiau, ond roedd amryw o gyfranwyr yn gofyn am fwy o eglurder ar eu hunion rôl a’u gallu i gefnogi lleoliadau heblawn ysgolion uwchradd.

5.23 Roedd croeso hefyd i’r adran ar rieni a gofalwyr, ond teimlai rhai y dylid cefnogi gallu rhieni (o safbwynt gwybodaeth am gyfleoedd) gan adnoddau a deunyddiau ar-lein.

5.24 Roedd **canmoliaeth helaeth i’r ffaith fod sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch yn cael eu crybwyll** yn yr adran hon, ond y teimlad oedd fod y geiriad presennol ychydig yn gul. Er bod cyfeiriadau at brentisiaethau a hyfforddeiaethau yn cael eu croesawu fel pethau pwysig i’w cynnwys yn y canllawiau, teimlai amryw o gyfranwyr fod angen **mwy o gyfeiriadau at addysg alwedigaethol gyffredinol** hefyd. Teimlai rhai cyfranwyr fod ysgolion yn aml yn rhoi gormod o bwyslais ar sefydliadau addysg uwch a bod angen canolbwynio’n fwy penodol ac yn fanylach ar y cyfleoedd sydd ar gael trwy sefydliadau addysg bellach.

5.25 Roedd pob grŵp o gyfranwyr, ond cyflogwyr yn enwedig, yn **croesawu'r adran ar gynnwys cyflogwyr**. Roedd cydweithio â chyflogwyr yn cael ei weld fel elfen allweddol o gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ac roedd galwad ar i'r canllawiau drafft gydbwyso rhwng yr angen i ysgolion a lleoliadau gyflwyno'r cyfleoedd lleol sydd ar gael gan hefyd ymestyn gorwelion dysgwyr at gyfleoedd sydd ar gael ymhellach i ffwrdd.

5.26 Yn ogystal, teimlai cyfranwyr y gallai'r canllawiau fod yn fwy penodol o safbwynt sut y gallai ysgolion a lleoliadau **gyrraedd at gyflogwyr a phwy oedd yn gyfrifol am froceru'r partneriaethau hyn** (sef, a oedd hyn yn rôl i ysgolion unigol, awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru neu a oedd angen datblygu porthol).

5.27 Teimlai cyfranwyr y gellid manylu mwy yn y canllawiau drafft ar rolau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wrth gefnogi gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ac y gellid cryfhau eu rôl bwysig.

**Cwestiwn 6**

Pa agweddau o'r canllawiau hyn sy'n arbennig o ddefnyddiol yn eich barn chi?

5.28 Roedd amryw o gyfranwyr yn hoffi adran ragarweiniol y canllawiau ac yn teimlo ei bod yn cynnig **esboniad cryf a chryno** ynghylch diben a phwysigrwydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

5.29 Dywedodd cyfranwyr fod y **gynrychiolaeth weledol** a ddefnyddiwyd yn y canllawiau drafft yn neilltuol o ddefnyddiol wrth ddeall sut mae'r canllawiau drafft ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn cydweddu â'r Cwricwlwm i Gymru ac roeddent yn galw am fwy o siartiau gweledol drwy'r holl adroddiad. Nodwyd y gallai siart i ddangos sut y gellid gosod gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fewn cyd-destun Meysydd Dysgu a Phrofiad a sgiliau yn helpu gwella dealltwriaeth.

5.30 Roedd yr adrannau sy'n rhoi **disgrifyddion o gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn perthynas â sgiliau a Meysydd Dysgu a Phrofiad** wedi eu nodi mewn ffordd a oedd yn glir a'u cyfleu mewn ffordd a allai fod yn berthnasol i'r mwyafrif o leoliadau.

5.31 Teimlai cyfranwyr fod **adran geirfa'r canllawiau drafft yn ddefnyddiol** ac o fudd penodol i'r rheini sy'n llai cyfarwydd â'r Cwricwlwm i Gymru a gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

**Cwestiwn 7**

A oes agweddau o'r canllawiau hyn y gellid eu gwella yn eich barn chi?

5.32 Teimlai cyfranwyr y dylid cymryd gofal ynghylch yn defnydd o 'dylai' a 'gallai' drwy'r holl ddogfren. Roedd cydnabyddiaeth o ystyr gyfreithiol y gwahanol dermau, ond roedd rhai cyfranwyr o leoliadau ysgolion cynradd, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig yn awyddus i sicrhau bod y canllawiau drafft wedi eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n sicrhau bod pob 'dylai' yn berthnasol ac yn bosibl ei gyflawni ym mhob lleoliad.

5.33 Hoffai cyfranwyr hefyd weld **llais y disgybl yn fwy amlwg** drwy'r holl ganllawiau drafft gan fod gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn fater unigolyddol iawn sydd angen iddo adlewyrchu anghenion a diddordebau'r plentyn unigol.

5.34 Roedd cyfranwyr yn awgrymu hefyd y gallai'r canllawiau gyfeirio at **gyfleoedd i ysgolion weithio mewn clystyrau wrth weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith**, a bod mynd ati ar y cyd fel hyn yn neilltuol o bwysig o safbwynt dilyniant o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 a'i fod yn cynnig cyfleoedd i ysgolion uwchradd weithio gydag ysgolion cynradd o fewn eu clystyrau wrth weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

5.35 Teimlai rhai fod y canllawiau'n canolbwyntio'n ormodol ar leoliadau ysgolion uwchradd a'r hyn y gellid ei gyflawni yno. Byddai cyfranwyr yn croesawu mwy o wybodaeth ynghylch sut y gellid gweithredu

gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn lleoliadau eraill, yn enwedig ysgolion cynradd. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth nad oedd hyn o angenrheidrwydd yn rhywbeth y gellid ei gynnig mewn dogfen ganllawiau statudol ac y gellid bod angen ei wireddu mewn adnoddau cysylltiedig.

5.36 Roedd cyfranwyr yn galw am restr o sefydliadau y sicrhawyd eu hansawdd a allai weithio gydag ysgolion a gwybodaeth am y gwasanaethau y gallent ddewis ohonynt.

5.37 Cafodd **pwysigrwydd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â chyflwyno gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith** ei godi'n aml yn ystod y gweithdai ac roedd cyfranwyr yn galw ar i'r canllawiau gynnwys mwy o wybodaeth ar yr elfen hon a'r hyn y dylai fod er mwyn addysgu ymarferwyr ynghylch amrywiol sectorau, cyfleoedd gyrfa a llwybrau gyrfa. Y farn oedd bod cymorth a hyfforddiant i ymarferwyr a llywodraethwyr yn bwysig, yn enwedig gan fod canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn statudol ac y byddai felly yn cael ei fonitro a'i werthuso gan Estyn maes o law o ganlyniad.

**Cwestiwn 8**

Pa wybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys yn y canllawiau ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith?

5.38 Nid oedd cyfranwyr gweithdai yn awgrymu llawer yn ychwanegol at gynnwys presennol y canllawiau drafft ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith nad yw eisoes wedi'i grybwyll mewn cwestiynau blaenorol.

5.39 Roedd rhai cyfranwyr yn dangos yr angen am **gyfle cydradd** a'i bod yn anochel y byddai gan wahanol ranbarthau Cymru fantais dros y lleill o ran mynediad at gyflogwyr mewn rhai sectorau allweddol. O ganlyniad, y teimlad oedd bod angen i'r canllawiau adlewyrchu pwysigrwydd **darpariaeth ryngweithiol** fel y gellid darparu adnoddau

ac atebion digidol i’r rheini na allai gyrraedd at gyflogwyr neu sectorau penodol yn lleol.

5.40 Roedd cyfranwyr yn gofyn yn rheolaidd hefyd am **fwy o adnoddau, cyfeiriadau, a chanllawiau ar ‘sut’ i weithredu** gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith law yn llaw â’r canllawiau ar ei gyfer. Rhoddir sylw manylach i un o dan Gwestiwn 10.

**Cwestiwn 9**

Pa effeithiau fydd y canllawiau hyn yn eu cael ar y Gymraeg?

5.41 Ychydig iawn o sylwadau a wnaed yn y gweithdai ynghylch y Gymraeg. Teimlai cyfranwyr yn gyffredinol nad oedd unrhyw faterion nac effeithiau penodol (cadarnhaol na negyddol) ar y Gymraeg.

5.42 Roedd cyfranwyr yn falch o weld bod y canllawiau’n cyfeirio at **bwysigrwydd y Gymraeg mewn gyrfaoedd** ac yn croesawu’r ffaith fod y canllawiau drafft yn **annog hyrwyddo sgiliau Cymraeg**.

**Cwestiwn 10**

Sylwadau eraill

5.43 Yn ogystal â sylwadau ynghylch y canllawiau drafft eu hunain, codwyd materion allweddol eraill ynghylch gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith gan gyfranwyr i’r gweithdai mewn perthynas â dysgu proffesiynol yn benodol, gan gynnwys:

- er bod y canllawiau drafft yn nodi’n glir ‘beth’, byddai pob lleoliad (ond lleoliadau cynradd yn enwedig) yn croesawu adnoddau atodol i helpu gyda ‘sut’.
- byddai enghreifftiau o’r arferion gorau o beth yw’r ‘hyn sydd dda’, wedi eu rhannu ar HWB, yn ddefnyddiol
- byddai astudiaethau achos a oedd yn cynnwys enghreifftiau o lle mae gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith eisoes wedi

ymwreiddio’n llwyddiannus yn y cwricwlwm, ac astudiaethau achos o amrywiaeth o wahanol leoliadau, yn cael eu croesawu.

- galwyd hefyd am adnoddau Dysgu Proffesiynol – yn enwedig rhai digidol, i fod ar gael ar HWB.

5.44 Mae Gyrfa Cymru yn datblygu amrywiaeth o adnoddau a fydd yn cefnogi ysgolion a lleoliadau wrth weithredu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys pecyn cymorth newydd gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

5.45 Yn ystod y gweithdai, gwnaed cyfeiriadau at amryw o raglenni neu adnoddau cysylltiedig a gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith sydd eisoes ar gael a allai helpu ysgolion a lleoliadau wrth iddynt weithredu gofynion canllawiau drafft gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhaglen y Bartneriaeth Adeiladu Sgiliau[1].
- Wythnos Agor Eich Llygaid[2] (Ymrwymiad Caerdydd).
- ‘Career Sense’[3] NatWest (a rhaglenni entrepreneuriaeth a llythrennedd ariannol eraill).
- Adroddau Into Film Cymru[4].

5.46 Cafodd model **Syniadau Mawr Cymru** ar gyfer cyflwyno addysg entrpreneuriaeth ei amlygu fel model y dylid ei atgynhyrchu ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, yn enwedig fel ffordd o alluogi ysgolion a lleoliadau i gyrraedd at gyflogwyr.

5.47 Gwnaed sylwadau eraill yn ystod y gweithdai sy’n berthnasol i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith (os nad i’r canllawiau drafft eu hunain) gan gynnwys bod angen cydnabyddiaeth y gallai cyflogwyr a sectorau yn aml gynnig amrywiaeth helaeth o gyfleoedd a bod angen addysgu ymarferwyr fel eu bod yn ymwybodol o hyn. Er enghraifft, er bod y sector cyfryngau yn cynnig cyfleoedd amlwg i fyfyrwyr drama a

[1] www.skillsbuilder.org
[2] https://cardiffcommitment.co.uk/open-your-eyes-week/
[3] https://www.mycareersense.com/
[4] https://www.intofilm.org/cymru

chyfryngau (ee actorion) mae hefyd yn cyflogi technegwyr, trydanwyr, ymchwilwyr, cyfarwyddwyr celf etc.

5.48 Yn yr un modd, roedd cyflogwyr yn awyddus i gyfleu bod sectorau cyflogaeth allweddol yn aml yn cael eu hanwybyddu neu'n cael eu gweld fel rhai addas ar gyfer dysgwyr sy'n llai abl yn academaidd, ond eto y gallent cynnig cyfleoedd sy'n talu'n dda iawn a dilyniant a chyfleoedd gyrfa cryf (ee adeiladu, peirianneg fecanyddol).